

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 31 Awst 2021

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o Cabinet yn Siambr y Cyngor - Penmorfa Dydd Mawrth, 7 Medi 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**
- 5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 10)**
- 6. Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**
- 7. Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
- 8. Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**
- 9. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad ar: y Cynllun Adleoli Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 11 - 16)**
- 10. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ar: Perthyn: Archwiliad o sut y gall casgliadau greu cymuned yng Ngheredigion
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 17 - 20)**
- 11. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: y Gyllideb Refeniw Reoladwy - 2021/22
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 21 - 42)**
- 12. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ar: Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021 - 2026 i gynnwys adborth gan Drosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 43 - 74)**

13. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar: Sicrhau safle ar gyfer darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 75 - 78)**
14. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r ymateb, i gynnwys adborth gan Drosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 79 - 178)**
15. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Bwriad i wahardd pario ar unrhyw adeg ar yr A482, Heol-y-Tywysog, Aberaeron, wrth safle'r hen ysbyty
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 179 - 206)**
16. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Cambrian Way, Aberporth
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 207 - 210)**
17. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Cwrt Dolffin, Ceinewydd
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 211 - 214)**
18. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Ffordd Fynediad i Barc Busnes Horeb, Llandysul
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 215 - 218)**
19. **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 1
ER GWYBODAETH (Tudalennau 219 - 228)**
20. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Edwards', written in a cursive style.

Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
A gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda **ddydd Mawrth, 13 Gorffennaf 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm ddydd Dydd Iau, 22 Gorffennaf 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau I rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Dydd Gwener, 23 Gorffennaf 2021

YN BRESENNOL: Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Euros Davies, Keith Evans, Mark Strong a Lynford Thomas

(10.00am - 12.10pm)

42 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ray Quant oherwydd roedd angen iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

43 Materion Personol

- i. Estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r Arglwydd Elystan Morgan a fu farw'n ddiweddar, a thalodd yr Arweinydd deyrnged i'w gyfraniad mawr i wleidyddiaeth yng Ngheredigion a Chymru.
- ii. Estynnwyd cydymdeimlad â theuluoedd Mr Wyn Jones a Mr Dave Edwards a fu farw'n ddiweddar; roedd y ddau wedi cyfrannu'n aruthrol i'r sîn roc a phop Gymraeg. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdanynt.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Dic Evans ar redeg 1,000 o filltiroedd dros 100 diwrnod gan godi £9,000 tuag at Uned Cemothorapi Ysbyty Bronglais.
- iv. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Tim Richards o Gei Newydd ar gerdded llwybr yr arfordir o Aberystwyth i Gei Newydd i godi arian i'r RNLI.
- v. Estynnwyd llongyfarchiadau i Elen James a'r Gwasanaeth ar ennill gwobr Aur Datblygu Insport.
- vi. Estynnwyd dymuniadau gorau i Mr John Morgan ar ei ymddeoliad o'r Fforwm Mynediad Lleol a ffurfiwyd ganddo, yn ogystal â bod yn gadeirydd ar y fforwm ar sawl achlysur .
- vii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Llanilar ar fod yr ysgol gyntaf yng Ngheredigion i gyflawni Safon Aur Siarter y Gymraeg.

44 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datganodd y Cynghorydd Catrin Miles fuddiant personol parthed cais Cyngor Tref Aberteifi yn eitem 57.

45 **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr parthed COVID-19**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar lafar parthed COVID-19. Dywedodd fod Ceredigion bellach mewn trydedd don o achosion Coronafeirws wrth i 72 o achosion newydd gael eu hadrodd yr wythnos hon, sy'n gynydd ar y 24 a adroddwyd yn yr wythnos flaenorol. Mynegwyd pryderon yn enwedig ynghylch y cynnydd mewn achosion yng ngogledd y sir, yn benodol yn ardaloedd Borth a Bont-goch ac Aberystwyth.

Yn anffodus, roedd dau gartref gofal yng ngogledd y Sir yn y categori coch yn sgil achosion. Ailgyflwynwyd y Parthau Diogel gyda'r nod o gynnig amgylchedd diogel lle gall pobl gadw pellter cymdeithasol wrth i achosion gynyddu yn y Sir.

Bydd gwaith yn dechrau ar y pyllau nofio yn Aberystwyth a Llambled cyn bo hir, pan fydd yr unedau trin aer ar gael ac wedi'u gosod. Hefyd diolchodd yr Arweinydd i Brifysgol Aberystwyth am ddarparu eu cyfleusterau nhw i'r gymuned tra bod pwll nofio Plascrug ar gau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi sefydlu clinigau brechu Galw i Mewn yn Llanbadarn ac Aberteifi i alluogi trigolion Ceredigion sydd dros 18 oed i gael eu brechlyn cyntaf neu eu hail frechlyn heb orfod cael apwyntiad.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod y ffigurau diweddaraf yn bryder mawr mewn pum ardal benodol yn y Sir, sef y Borth a Bont-goch, Gogledd Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad, a Rheidol, Ystwyth a Charon gan eu bod dros y trothwy o 50 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd Borth a Bontgoch ar 215.1 fesul 100,000, Gogledd Aberystwyth ar 169.8 fesul 100,000, Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad ar 72.8 fesul 100,000 a Rheidol, Ystwyth a Caron ar 60.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth (ar 12 Gorffennaf 2021).

Dywedodd fod y rhan fwyaf o'r achosion mewn pobl o dan 50 oed ac yn enwedig o gwmpas grŵp oedran 30 oed ac iau. Mynegodd bryder y gallai'r feirws gael ei drosglwyddo i'w rhieni hŷn o fewn y cartref er eu bod nhw wedi derbyn y brechlyn. Mae'r brechlyn ond yn helpu i atal salwch difrifol. Ni riportwyd dim cynnydd o ran achosion yn yr ysbytai ar hyn o bryd.

Anogodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr bawb i gadw'n ddiogel ac i ddilyn rheolau pellter cymdeithasol.

46 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 yn gywir.

Materion yn codi:

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

47 **Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**

Dim.

48 **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Dim.

49 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**
Dim.

50 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ar: apwyntio Cynrhychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethu**
PENDERFYNIAD

Cadarnhau'r enwebiadau:

- i. Ail-ethol Sian Thomas Jones yn Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Rhydypennau
- ii. Ethol Daniel Frisby yn Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Comins Coch

Rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethu.

51 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar: Tyfu Canolbarth Cymru - Cytundeb Rhyng-awdurdod diwygiedig**
PENDERFYNIAD

- (i) Cymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-awdurdod Diwygiedig ar gyfer cytuno ar Achos Busnes Portffolio a Chytundeb Terfynol y Fargen ar gyfer Bargaen Twf Canolbarth Cymru; a
- (ii) Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu i wneud mân newidiadau i'r Cytundeb Rhyng-awdurdod, ar y cyd â Chyngor Sir Powys. Newidiadau mwy sylweddol i'w hawdurdodi gan y Cabinet ac adroddir yn ôl ar hynny.

Rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i gwmpasu cyfnod nesaf datblygu'r Fargen Twf.

52 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforathol Economi ac Adfywio ar gyfer Ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi**
PENDERFYNIAD

Mae'r Cabinet yn argymhell y Cyngor i gymeradwyo rhoi Pwerau Dirprwyedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet, i benderfynu ar geisiadau cynllunio sydd ddim yn cydymffurfio â'r gyfarwydddeb ffosffadau (yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017) ac a ddaw i law ar ôl 1 Mehefin 2021.

Tudalen 8

Bydd pob cais sy'n dod o dan y categori hwn ac a ddaeth i law cyn 1 Mehefin 2021 yn cael eu dal yn ôl hyd nes y bydd cyfarwyddyd clir ar sut i benderfynu ynghylch y ceisiadau hyn.

Rheswm dros y penderfyniad:

Caniatáu i Geisiadau Cynllunio gael eu penderfynu'n effeithlon.

53 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: Adroddiad Aildro'r Rhaglen Gyfalaf 2020/21 PENDERFYNIAD

Nodi'r adroddiad a'r perfformiad ariannol llwyddiannus.

54 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf 2021/22 to 2023/24 PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ar gyfer 2021/22 i 2023/24, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A.

Rheswm dros y penderfyniad:

Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf.

55 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: yr Aildro Refeniw Rheoladwy ar gyfer 2020/21 PENDERFYNIAD

Nodi'r adroddiad.

56 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: Berfformiad Rheoli'r Trysorlys 2020/21 PENDERFYNIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

57 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: Grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion a Chronfa'r Degwm PENDERFYNIAD

Nodi'r grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion a Chronfa'r Degwm yn 2020/2021.

58 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ar: Drefniadau Ariannu Rhanbarthol PENDERFYNIAD

Cymeradwyo:

a) yr egwyddorion ariannu - fel y nodir yn yr adroddiad - ar gyfer yr holl waith rhanbarthol a gyflawnir drwy gyfrwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fel a ganlyn:

- (i) gweithredu'r fformiwla ariannu ranbarthol ar sail poblogaeth y tri Awdurdod Lleol, a hynny i bob menter a phrosiect rhanbarthol sy'n dod o dan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, o ran incwm a gwariant;

- (ii) os oes prosiectau sy'n cynnwys cyfraniadau gan sawl asiantaeth, disgwylir i'r fformiwla gael ei gweithredu yn ôl cyfanswm ymrwymiad y tri awdurdod lleol (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) ac nid yn ôl y swm cyfan; a
- b) rhoi pwerau dirprwyedig ar y cyd i:
- Aelod Cabinet Porth Cynnal
 - Aelod Cabinet Porth Ceredigion, Cymorth Cynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant, a
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal
- i wyro oddi wrth y model y cyfeirir ato yn a) uchod, mewn amgylchiadau eithriadol, a bod y gwriad hwnnw'n cael ei adrodd i'r Cabinet wedi hynny.

Rheswm dros y penderfyniad:

I ofyn am gymeradwyaeth i'r egwyddorion ariannu rhanbarthol i sicrhau trefniadau ariannu teg o ran incwm a gwariant.

59 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar: Osod Ffioedd Cartrefi Gofal yn y Sector Annibynnol PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Ffioedd am Ofal Nyrsio yng Nghartrefi Sector Annibynnol Ceredigion ar gyfer 2021/22 ar y lefelau wythnosol canlynol, mewn grym o 05/04/2021 ymlaen:

Nyrsio Cyffredinol	£668.15
Nyrsio Dementia	£711.48

Rheswm dros y penderfyniad:

Cytuno ar ffioedd a'u pennu ar gyfer 2021/22

60 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar: Bolisi Goruchwylio Cyngor Sir Ceredigion PENDERFYNIAD

Cymeradwyo Polisi Goruchwylio Cyngor Sir Ceredigion.

Rheswm dros y penderfyniad:

Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r polisi.

61 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar: Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2020/21 PENDERFYNIAD

Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

62 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet Dim.

Tudalen 10

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 07/09/21****Teitl: Cynllun Adleoli Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan****Pwrpas yr adroddiad: Cael cymeradwyaeth i gynnig adleoli teulu o Affganistan sy'n perthyn i Staff a Gyflogwyd yn Lleol yno****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Polisi a Pherfformiad (gan gynnwys Adsefydlu Ffoaduriaid)
Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn****Cefndir**

Ar 30 Gorffennaf ysgrifennodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol at holl Arweinyddion a Phrif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol er mwyn gofyn am eu cefnogaeth i estyn croeso i'w awdurdodau nhw i'r Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan. Mae'r garfan hon o ddinasyddion Affganistan wedi gweithio i'r Deyrnas Gyfunol ac wedi peryglu eu bywydau ochr yn ochr â lluoedd Prydain yn Affganistan dros yr ugain mlynedd diwethaf. Yn awr mae angen eu hadleoli i'r Deyrnas Gyfunol gyda'u teuluoedd.

Daw hyn yn sgil penderfyniad NATO i dynnu lluoedd milwrol o Affganistan. Mae'r cynllun yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r newid a fu yn y sefyllfa yn Affganistan, ac yn sgil hynny, y risg i'r staff lleol sydd wedi gweithio i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol. O ganlyniad, mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wrthi'n gweithio'n gyflym i adleoli tua 3,000 o bobl (neu tua 600 o deuluoedd) erbyn mis Medi. Mae pedair awyren wedi cyrraedd eisoes gan ddod â 137 o deuluoedd i'r Deyrnas Gyfunol, lle maen nhw'n cael croeso cynnes.

Gan i'r Taliban gipio grym yn Affganistan yn gyflym iawn, a chipio Kabul, mae'r sefyllfa yn un o frys mawr ac mae'n hynod debygol y bydd dial yn erbyn y Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan.

Mae'r sefyllfa wedi datblygu'n argyfwng dyngarol a gofynnir i Gyngor Sir Ceredigion ystyried cyfrannu i adleoli'r rheiny sydd wedi gweithio i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn Affganistan, gan eu harbed rhag syrthio i ddwylo'r Taliban.

Mae'n debygol y daw rhagor o ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn y cyfnod rhwng ysgrifennu'r adroddiad hwn a phenderfyniad y Cabinet. Yn y cyfamser mae'r Arweinydd wedi gofyn i'r swyddogion drafod trefniadau posib gyda swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol.

Tudalen 12

	A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam	Wrthi'n cael ei wneud yn sgil y sefyllfa frys
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Hirdymor: Cydwethio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	
Argymhelliad:	Adleoli o leiaf un teulu o dan gynllun Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan	
Rheswm dros y penderfyniad:	I ymateb i argyfwng dyngarol yn Affganistan wrth i'r Taliban gipio grym yn gyflym yn y wlad	
Trosolwg a Chraffu:	Ddim yn berthnasol oherwydd y brys, ond bwriedir rhoi adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu maes o law.	
Fframwaith Polisi:	Adsefydlu Ffoaduriaid yng Ngheredigion	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	
Goblygiadau Ariannol a Chaffael:	Mae'r Cynllun Adleoli Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan yn cael cefnogaeth hael gan y Swyddfa Gartref	
Goblygiadau Cyfreithiol:	Ar ôl byw yma am bum mlynedd, gall ffoaduriaid wneud cais am yr hawl i aros.	
Goblygiadau Staffio:	Dim. Mae gan y Cyngor eisoes swyddog sy'n ymgymryd â thasgau adsefydlu Ffoaduriaid fel rhan o'i rôl hi. Hefyd rydym yn comisiynu'r Groes Goch Brydeinig i gynorthwyo teuluoedd i ymgynffwrdd.	
Goblygiadau o ran Eiddo/ Asedau:	Bydd y cyngor yn gweithio gyda'r partneriaid a'r cyhoedd i ddod o hyd i lety.	
Risg(iau):	Enw da. Yn ogystal, cynhelir asesiad risg manwl sy'n canolbwyntio ar Covid a bydd hwnnw'n cael ei roi ar waith.	
Pwerau Statudol:	Ddim yn berthnasol. Trefniant gwirfoddol yw hwn.	
Papurau Cefndirol:	Llythyr ar y cyd gan dri Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol.	

Tudalen 13

Atodiadau: Dim

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Alun Williams

Swyddog Adrodd: Alun Williams

Dyddiad: 13/08/21



Ministry of Housing,
Communities &
Local Government



Ministry
of Defence



Home Office

To all Council Leaders and Chief Executives in England, Scotland, and Wales

30 July 2021

AFGHAN LES RELOCATION SCHEME ACCELERATION

We last wrote to you on the 3rd June regarding the Government's Afghan Relocation and Assistance Policy (ARAP), requesting your support to welcome Afghan Locally Employed Staff (LES) – who have worked for the UK and risked their lives alongside British forces in Afghanistan over the past twenty years, and are now relocating to the UK with their families.

This follows NATO's decision to withdraw military forces from Afghanistan. The ARAP scheme acknowledges and reflects that the situation in Afghanistan has changed, and with it the potential risk to the local staff who have worked for the UK Government. As a result, we are now working at pace to relocate around 3,000 people (or approximately 600 families) before September. There are further LES who will be eligible under the scheme which will remain open. Four flights have already arrived, bringing 137 families to the United Kingdom where they are being warmly welcomed.

Since we wrote to you last, we have been delighted to see many local authorities come forward with generous offers of support for our Afghan friends and their families. We are grateful for this positive response and would like to thank all councils who have provided offers of support and accommodation.

But we write to you now with an urgent request for more offers of support.

The increasing numbers of flights over the summer means that we urgently need more generous offers from local authorities to resettle those who have served our country so bravely in Afghanistan. All offers are appreciated, and we especially require offers of support from areas who can provide or source larger homes of four bedrooms or more, to suit the needs of those Afghan LES arriving in large family groups.

As outlined in our last letter, the Home Office is providing a funding package to resource local authorities who come forward with offers to resettle Afghan LES and their families, enabling delivery of integration support for families and further support on employment, welfare benefits, and access to health, education and other local services. This financial support for all participating local authorities is being enhanced through additional central government integration support, including:

- An online welcome pack and GOV.UK landing page for all LES new arrivals - www.gov.uk/guidance/welcome-a-guide-for-arrivals-to-the-uk-from-afghanistan-on-the-locally-employed-staff-relocation-scheme
- Regular online local engagement networks for participating local authorities, to share information and resources
- Access to central government departments, to share information and work through any emerging policy or other issues that may arise

Tudalen 15

As part of the process of engaging with local authorities to shape this offer, we have heard the feedback of expert local partners from councils across the UK. As a result, we are pleased to announce that, with HMT support, integration funding has now been extended to 12 months, meaning an increase to £10,500 per person welcomed by a local authority. Furthermore, we can provide additional funding (such as for rent, travel, or other incurred costs) to cover any potential short-term period before access to benefits and services becomes available to the new arrivals.


We are also making extra funding available to local authorities for the provision of English language training for adults. And we have agreed to simplify the payment structure to reduce the administrative burden on local authorities who choose to welcome the new Afghan arrivals. We hope these updates will be useful and may help you to come forward with an offer of support soon.

We will continue to listen to the feedback you provide, and our cross-Government teams will continue to engage with local authorities to answer any questions you may have. We will continue to hold frequent conversations with Strategic Migration Partnerships, and Local Authority Afghan LES Network meetings – regular sessions organised by MHCLG for local authorities from across the whole of the UK, attended by partners from across Government – both to generate new welcome and accommodation offers, but to also support and learn from those places who have agreed to host Afghan LES and their families.


We look forward to hearing from even more local partners from across the UK very soon, with additional offers of support to welcome all those who need our help and assistance.



RT HON ROBERT JENRICK MP
SECRETARY OF STATE FOR HOUSING,
COMMUNITIES AND LOCAL GOVERNMENT



RT HON PRITI PATEL MP
HOME SECRETARY



RT HON BEN WALLACE MP
SECRETARY OF STATE FOR DEFENCE

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r:** Cabinet**Dyddiad y cyfarfod:** 7^{fed} Medi 2021**Teitl:** Perthyn: Archwiliad o sut y gall casgliadau greu cymuned yng Ngheredigion
(prosiect a elwid gynt yn Gasglu ar gyfer Cenedl)**Pwrpas yr adroddiad:** Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer arian cyfatebol £250,000 o'r Gronfa Gyfalaf tuag at brosiect Perthyn**Er:** Penderfyniad**Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** Aelod y Cabinet dros Borth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Hybiau Lles a Diwylliant
Y Cynghorydd Catherine Hughes**Crynodeb:**Cefndir

Y prosiect hwn yw cam 2 y prosiect Gweddnewidiadau sydd â 3 cham iddo, a cham 1 oedd Dulliau Newydd, a gwblhawyd yn llwyddiannus yn 2018. Mae Cam 2, Perthyn, yn canolbwyntio ar greu gallu o ran addysg a dysgu, 'Canolfan Casgliadau Treftadaeth Ceredigion' (storfa hygyrch o'r radd flaenaf ar gyfer casgliadau'r amgueddfa sydd wedi'u had-drefnu) ac yn gweithio gydag arbenigwyr a grwpiau cymunedol i helpu i asesu arwyddocâd y casgliadau. Bydd y prosiect hwn hefyd yn creu eglurder ynghylch rôl Ceredigion yn y Casgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar yng Nghymru, fel sylfaen ar gyfer cam 3 y prosiect Gweddnewidiadau.

Bydd 'Canolfan Casgliadau Treftadaeth Ceredigion' yn gyfleuster i ymwelwyr gael profiad 'y tu ôl i'r llenni' o'r 65,000⁺ arteffact hanesyddol sy'n ymwneud â hanes lleol yng ngofal Amgueddfa Ceredigion.

Bydd y cynnig yn cael ei fodelu ar fentrau tebyg sy'n bodoli eisoes fel Canolfan Casgliadau Amgueddfa Birmingham a Chanolfan Casgliadau Amgueddfa Caeredin. Ar hyn o bryd, mae'r Amgueddfa'n arddangos tua 10% o'r casgliad cyhoeddus yn barhaol; bydd y cyfleuster newydd yn rhoi mynediad i 90% arall y casgliad gan gynnwys y tecstilau a chasgliadau celf Cymreig o bwys rhyngwladol.

Bydd ymwelwyr yn gallu mwynhau teithiau cyffredinol neu arbenigol, gweithdai a gweithgareddau addysgol. Mae'r cyfleuster yn cynnwys man dysgu ac ardal gweithdy.

Nod y prosiect hefyd yw archwilio'r cysyniad o 'berthyn' a gwerthoedd cymunedol a rennir yng nghyd-destun arwyddocâd asesu'r casgliad i feithrin ein dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Ceredigion a hefyd gwella mynediad ffisegol a deallusol i'w thrysorau yn fawr.

Tudalen 18

Bydd y cyfleuster storio newydd yn cael ei ddylunio ar egwyddor Passivhaus i leihau costau rhedeg a bydd yn rhyddhau lleoliad gwych yng nghanol y dref (Garej Stryd y Baddon). Ar hyn o bryd mae gan yr amgueddfa ddau safle storio allanol; Yr Hen Gapel, Tre'r Ddol a Garej Stryd y Baddon. Bydd arbedion a wneir o ddadgomisiynu a gwerthu/datblygu/rhentu/trosglwyddo safle Garej Stryd y Baddon a chapel Tre'r Ddol yn helpu i dalu costau rhedeg y cyfleuster newydd.

Rhagwelir y bydd y prosiect yn rhedeg, tra'n aros am geisiadau ariannu llwyddiannus, rhwng 2021 a 2026

Costau'r Prosiect

Mae'r costau ar gyfer y prosiect wedi'u nodi fel £1.9 miliwn mewn astudiaeth ddichonoldeb a gomisiynwyd gan Gyfeillion Amgueddfa Ceredigion.

Mae'r prosiect wedi cael ei basio gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar y cam Datganiad o Ddiddordeb ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gefnogi i ddatblygu cais Rownd 1 am swm £1.1miliwn.

Daw'r £800,000 sy'n weddill o Lywodraeth Cymru, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau ond mae disgwyl gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyfrannu tuag at y ffigur hwn.

Mae trafodaethau yn y Grŵp Datblygu Corfforaethol wedi awgrymu y gellid gwneud ymrwymiad £250,000 o'r Gronfa Gyfalaf gan ddisgwyl y bydd llawer o hyn yn cael ei adennill o werthu eiddo a ddefnyddir ar hyn o bryd fel storfa amgueddfa sef Garej Stryd y Baddon a Chapel Tre'r Ddol. Mae hyn yn cynrychioli gwerth da iawn am arian i Gyngor Sir Ceredigion a bydd yn helpu i sicrhau gweddill yr arian

Mae gwerth y tir y bydd Canolfan y Casgliadau yn cael ei hadeiladu arno eisoes wedi'i gynnwys yn yr astudiaeth ddichonoldeb ac ni all gyfrannu at yr arian cyfatebol £800,000 sy'n ofynnol.

Ni fydd angen arian cyfatebol o'r gronfa Gyfalaf tan 2024/25

	Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam	Oes
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	Bydd y cyfleuster storio yn rhoi storfa hirdymor ar gyfer casgliadau'r Amgueddfa
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Cydweithio:	<ul style="list-style-type: none">• Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru• Common Cause Foundation• Prifysgol Aberystwyth• Happy Museum
	Cynnwys:	Ymgynghorwyd ag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau cymunedol ar

Tudalen 19

	<p>gyfer Astudiaeth Ddichonoldeb Perthyn.</p> <p>Bydd y cyfleuster yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu ymhellach â'r gymuned</p>
Atal:	<p>Lliniaru'r bygythiadau presennol i oroesiad hirdymor casgliadau'r amgueddfa</p>
Integreiddio:	<p>Pobl: Bydd y mynediad at dreftadaeth Ceredigion a'r ddealltwriaeth ohoni'n cael eu gwella'n fawr.</p> <p>Economi: Bydd cyfleuster treftadaeth newydd ar gael i wella'r economi ymwelwyr</p> <p>Amgylchedd: Bydd cyfleuster storio amgueddfa o'r radd flaenaf a bach ei effaith yn lleihau effaith amgylcheddol gweithrediadau'r amgueddfa ac yn arbed arian i'r Gwasanaeth.</p>
Argymhelliad:	<p>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ymrwymiad £250,000 o'r Gronfa Gyfalaf fel arian cyfatebol tuag at brosiect Perthyn.</p>
Rheswm dros y penderfyniad:	<p>Diogelu casgliad yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol a rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned</p>
Trosolwg a Chraffu:	<p>Gwybodaeth wedi'i chyflwyno yn y Grŵp Datblygu Corfforaethol</p>
Fframwaith Polisi:	<p>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022</p>
Blaenoriaethau Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none">• Hybu'r Economi• Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol'
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	<p>Ymrwymiad £250,000 o'r Gronfa Gyfalaf.</p>
Goblygiadau Cyfreithiol:	<p>Mae Capel Tre'r Ddol, un o'r adeiladau sy'n storio'r casgliad ar hyn o bryd, yn rhan o Elusen Richard James Thomas ac felly mae ganddo statws ymddiriedolaeth. O'r herwydd, bydd yn rhaid i unrhyw gynlluniau ar gyfer y casgliad cysylltiedig a/neu'r adeilad ei hun gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau Cyngor Sir Ceredigion, a all yn ei dro fod angen caniatâd y Comisiwn Elusennau i amrywio Cynllun yr ymddiriedolaeth.</p>

Tudalen 20

Goblygiadau staffio:	Bydd pedair swydd prosiect yn cael eu creu i feithrin gallu i gyflawni'r prosiect, a fydd yn cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
Goblygiadau eiddo / asedau:	Creu Canolfan newydd o'r radd flaenaf ar gyfer Casgliadau Treftadaeth Ceredigion ar dir y cyngor. Gwerthu Garej Stryd y Baddon Gwerthu/lesio/trosglwyddo Yr Hen Gapel, Tre'r Ddol
Risg(iau):	Bydd methu â sicrhau arian cyfatebol yn peryglu dyfodol prosiect Perthyn ac yn effeithio'n ddifrifol ar allu'r Amgueddfa i storio a gwarchod ei chasgliadau yn effeithiol.
Pwerau Statudol:	Ddim yn berthnasol
Papurau Cefndir:	Astudiaeth Ddichonoldeb
Atodiadau:	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Meinir Ebbsworth
Swyddog Adrodd:	Carrie Canham
Dyddiad:	24/8/21

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 07/09/2021****Teitl: Cyllideb Refeniw Reoladwy - 2021/22****Diben yr adroddiad: Adrodd am y Gyllideb Refeniw 2021/22 - y sefyllfa fel y mae hyd at ddiwedd mis Mehefin 2021 a'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Cyllid a Chaffael – y Cynghorydd Gareth Lloyd
Aelod Cabinet:****1. CRYNODEB**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad ariannol pob Gwasanaeth mewn perthynas â Chyllideb Refeniw Reoladwy 2021/22. Mae cyllidebau pob gwasanaeth yn cael eu monitro a'u hadolygu'n gydwybodol ac yn rheolaidd, er mwyn asesu amseriad yr incwm a'r gwariant, yn ogystal ag asesu'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn a sicrhau bod camau cyweiriol yn cael eu cymryd lle bo hynny'n bosibl ac fel y bo'n briodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys asesu'r effaith ariannol parhaus yn sgil COVID-19.

Ar yr adeg gynnwys hon yn y flwyddyn ariannol, rhagwelir mai'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn fydd tanwariant o £358k.

Roedd angen cynilion ariannol o £3.4m ar gyllideb 2021/22, yn dilyn setliad ariannol gwael gan Lywodraeth Cymru. Yn y strategaeth a ddefnyddiwyd i gyflawni hyn canolbwyntiwyd ar fynnu bod y Gwasanaethau'n cynilo 1% o'u cyllidebau (£1.25m) a tharged o gynilion corfforaethol o £2.1m ar gyfer y Grŵp Arweiniol gyda'i gilydd. Gallaf adrodd bod 80% o gynilion y Gwasanaethau eisoes wedi'u cyflawni neu ar darged ac mae 100% o'r targed ar gyfer cynilion Corfforaethol bellach wedi'i gyflawni'n llawn.

Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa a ragwelir, mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau'n gadarnhaol. Mae effeithiau a risgiau ariannol yn dal i fodoli yn sgil COVID-19, ond mae'r rhain yn cael eu rheoli mewn modd gweithredol drwy gyfuniad o hawliadau yn erbyn cronfa Galedi Llywodraeth Cymru, grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ac arian a oedd wedi ei osod o'r neilltu cyn hyn ac mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi.

2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB GRAIDD

Mae ffigyrau diweddaraf y gyllideb yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith i nifer o benawdau'r gyllideb gael eu haildrefnu fel rhan o'r broses o ddatrys yn llawn y

Tudalen 22

targed o gynilo £2.1m yn gorfforaethol. Mae hyn wedi golygu Trosglwyddiadau (virements) Cyllidebol fel a ganlyn:

<u>Pennawd yn y Gyllideb</u>	<u>2021/22 Y Gyllideb Wreiddiol £'000</u>	<u>Newid yn ymwneud â Chynilion Corfforaethol £'000</u>	<u>Esboniad</u>
Cyllid a Chaffael	21,311	-1,174	Gostyngiad yng nghyllideb sylfaenol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (£500k – oherwydd bod hwn yn cael ei reoli gan gronfeydd wrth gefn/ariannu posibl gan Lywodraeth Cymru), cynilion o ran taliadau llog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) (£524k), gostyngiad yn nghyllideb Rhyddhad Ardreth Annomestig Genedlaethol (£50k) a chynilion o ran yswiriant (£100k)
Pennawd Cynilion Corfforaethol (o fewn cyllideb gyffredinol £4.284m y Grŵp Arweiniol)	-2,137	1,174 963	Trosglwyddwyd o 'Cyllid a Chaffael' fel uchod Gostyngiad yn y cyllidebau Hapddigwyddiadau/Buddsoddi i Arbed (£200k), ardoll Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn is (£327k), Cynilion blaenorol wedi eu cadw cyn bod eu hangen (£436k)

Nid oes unrhyw un o'r trosglwyddiadau (virements) hyn yn golygu amrywiad sylweddol yn lefel y cyflawniad na'r modd y cyflawnir y gwasanaeth dan sylw. Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o drosglwyddiadau (transfers) cyllidebol wedi bod rhwng Gwasanaethau sy'n adlewyrchu newidiadau gweithredol dydd i ddydd rhwng Gwasanaethau, heb unrhyw newid sylfaenol i ddarpariaeth y gwasanaeth. Mae pob un o'r rhain o dan £100k ac eithrio'r canlynol:

<u>Eitem</u>	<u>Swm £'000</u>	<u>Cyllideb wedi'i Throsglwyddo</u> <u>○</u>	<u>Cyllideb wedi'i Throsglwyddo</u> <u>↓</u>
Uned Cyfeirio Disgyblion	580	Ysgolion a Diwylliant	Porth Cymorth Cynnar
Gweithrediad Taliadau Uniongyrchol	290	Porth Cynnal	Porth Gofal
Cludiant Ysgolion wedi Cau	525	Ysgolion a Diwylliant	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
CYFANSWM	1,395		

Ar yr adeg yr ysgrifennir hwn, rydym yn dal i ddisgwyl i ddyfarniadau cyflog gael eu penderfynu'n derfynol ar gyfer 2021/22, gyda chynigion cyflog presennol yn troi o amgylch oddeutu 1.75% i'r rhan fwyaf o staff Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlerigol (o fis Ebrill 2021 ymlaen) ac 1.75% i athrawon (o fis Medi 2021 ymlaen). Ar

Tudalen 23

y lefelau hyn, o ran staff Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlerigol, mae modd cynnwys hwn o fewn darpariaeth y gyllideb fel y mae ar hyn o bryd ac o ran Athrawon byddai hwn yn arwain at ychwanegiad bach o oddeutu £150k at y pwysau yn ystod y flwyddyn ar draws Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion ac effaith ychwanegol blwyddyn lawn o oddeutu £260k (bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ail bwynt ar gyfer y broses o drefnu cyllideb 2022/23).

Mae'r newid i bolisi darpariaeth isafswm referniw a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cyngor Llawn yn golygu bod arbediad ar gael yn y gyllideb sylfaenol. Gellir gwneud defnydd buddiol o hwn yn y flwyddyn bresennol fel cyfraniad un tro i'r gronfa gyfalaf gorfforaethol wrth gefn, sef yr eitem cyllideb mwyaf perthnasol i elwa, wrth ddisgwyl am broses pennu cyllideb y flwyddyn nesaf. Mae'r gronfa wrth gefn hon bob amser o fudd i ystod o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor o ran gwariant yn y rhaglen Gyfalaf.

O ran perfformiad y gyllideb graidd, mae'r tabl a welir ar y dudalen nesaf yn dangos sefyllfa pob Gwasanaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â'r hyn a ragwelir ar gyfer y dyfodol:

Gwasanaeth	Y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan(gor) wariant £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan(gor) wariant £'000	Sylw
Cyswllt Cwsmeriaid	5,750	1,418	1,372	46	-	-	Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.
Gwasanaethau Democraidd	4,121	1,063	1,043	20	-	20	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.
Economi ac Adfywio	3,489	890	641	249	-	160	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn rhagwelir tanwariant o £160k, yn bennaf oherwydd cyfuniad o incwm Taliadau Tir yn perfformio'n dda ac arbedion dros dro yn ymwneud â'r strwythur staffio newydd.
Cyllid a Chaffael	20,188	11,349	11,232	117	-	200	Mae'r tanwariant a ragwelir yn ymwneud yn bennaf â swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn ogystal â hynny, bwriedir trosglwyddo £1.5 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn, yn dilyn mabwysiadu Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw diwygiedig. Mae costau'r Cynllun Cymorth Ychwanegol gyda Threth y Cyngor yn is na'r disgwyl ar hyn o bryd ac yn cael eu rheoli drwy ddulliau untro.
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	17,587	4,200	3,826	374	-	-	Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,538	367	340	27	-	20	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.
Pobl a Threfniadaeth	2,093	354	335	19	-	-	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoed	2,098	640	596	44	-	-	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem
Porth Cymorth Cynnar	4,047	1,834	1,822	12	89	-	Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn rhagweld tanwariant oherwydd swyddi gwag yn bennaf.
Porth Cynnal	23,492	6,517	6,545	(28)	(53)	-	Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £53k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn gyfnewidiol iawn ac mae'r rhagolwg hwn yn seiliedig ar ymrwymadau hyd yma ac mae yna nifer sylweddol o amrywiannau o fewn y gwasanaeth.
Porth Gofal	11,579	2,897	2,966	(69)	(274)	-	Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £274k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant yn bennaf ganlyniad i'r defnydd o staffio asiantiaeth o fewn y Tim Maethu ac darged arbedion yn sgil y re-strwythur heb ei gyflawni. Mae'r gwasanaeth yn gyfnewidiol iawn ac mae'r rhagolwg hwn yn seiliedig ar ymrwymadau hyd yma.
<u>Model Gydol Oed y Pyrth</u>	<u>39,118</u>	<u>11,248</u>	<u>11,333</u>	<u>(85)</u>		<u>(238)</u>	
Ysgolion a Diwylliant	48,721	43,421	43,090	331	-	196	Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn rhagweld tanwariant oherwydd swyddi gwag yn bennaf.
Arweiniol	5,443	2,774	2,772	2	-	-	Rhagwelir y bydd y costau i gyd yn cael eu hadennill. Bydd y costau sy'n ymwneud â COVID-19 yn cael eu hariannu drwy gyfuniad o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, arbedion a nodwyd ac yr ymdriniwyd â hwy'n gorfforaethol a chronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi.
Arollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd	4,590	1,022	1,021	1	-	-	Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.
Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy	154,736	78,746	77,601	1,145		358	

3. EFFAITH ARIANNOL COVID-19

Mae effaith ariannol COVID-19 yn parhau, sy'n golygu bod y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael yn dal i fod wrthi yn rheoli ystod o agweddau ariannol. I ddechrau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Gronfa Galedi Frys ar gyfer Awdurdodau Lleol yn rhedeg hyd at 30/09/2021. Fodd bynnag, deallir yn awr y bydd hyn yn ymestyn i fis Mawrth 2022, er nad yw'r manylion ynglŷn â'r estyniad hwn wedi eu cyhoeddi hyd yma.

Ymdrinnir â'r effaith ariannol yn sgil COVID-19 ar sail corfforaethol cyfunol ar draws y Cyngor; felly rhoddir cyfrif o dan bennawd cyllideb y Grŵp Arweiniol am y rhan fwyaf o'r elfennau y cyfeirir atynt o dan yr adran hon. Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa o safbwynt yr eitemau COVID-19 mwyaf arwyddocaol:

a) Costau Cynyddol yn sgil COVID-19 a Chronfa Galedi Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â bod yn gronfa gyffredinol mae Cronfa Galedi Frys Llywodraeth Cymru yn cynnwys cydrannau penodol gan gynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Prydau Ysgol am Ddim a Digartrefedd. Yn ystod 2021/22 mae hawliadau Caledi misol yn parhau i gael eu gwneud i Lywodraeth Cymru, cyfanswm o ychydig o dan £1.4m am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, gydag elfennau o bob un o'r tri hawliad yn dal yn aros am benderfyniad. Mae elfen sylweddol o'r costau'n ymwneud â chefnogaeth ariannol i ddarparwyr Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

b) Incwm a Gollwyd mewn Gwasanaethau

Mae nifer mwy o ffrydiau incwm yn awr yn cael eu hadfer i lefelau cyn COVID (e.e meysydd parcio) neu maent yn cynhyrchu arbedion i wneud iawn am ddiffygion presennol. Y gwasanaeth mwyaf arwyddocaol sy'n dal i gael ei effeithio mewn modd negyddol yw'r Canolfannau Lles, er bod hyn yn ymwneud i raddau helaeth â'r effaith yn sgil newid defnydd yr adeiladau dros dro at ddibenion eraill. Mae hawliadau yn dal i gael eu cyflwyno bob chwarter i Lywodraeth Cymru, gyda hawliad diweddaraf Chwarter 1 yn werth £350k. Rydym yn parhau i ddisgwyl am benderfyniad yn ei gylch.

c) Buddion Ariannol

Er bod y rhan fwyaf o'r effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn rhai negyddol, mae rhai o benawdau'r gyllideb yn cynhyrchu arbedion. Bwriedir ymdrin â'r eitemau mwyaf arwyddocaol yn gorfforaethol, ar yr amod na fydd canlyniad dyfarniad cyflog 2021/22 i staff gweinyddol, proffesiynol, technegol a chlerigol yn cael effaith negyddol ar Wasanaethau. Er enghraifft, mae costau teithio Swyddogion ac Aelodau yn arwain at arbediad o ychydig dros £120k yn Chwarter 1. Derbyniwyd ffioedd hefyd mewn perthynas â rhoi nifer o gynlluniau grant ar waith a rheoli'r cynlluniau hynny, cyfanswm o £38k hyd yma.

d) Casglu Treth y Cyngor

O ran casglu Treth y Cyngor yn ystod y flwyddyn mae'r gyfradd ar hyn o bryd, sef ar 30/06/21, yr un fath ag yn ystod y cyfnod cyfatebol yn 2019/20, hynny yw 30.7%. Mae hyn yn hynod o galonogol.

Yn gyffredinol, y bwriad o hyd yw parhau i reoli effaith ariannol COVID-19 drwy gyfuniad o hawliadau yn erbyn Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru, ymdrin â rhai cynilion yn gorfforaethol a defnyddio arian a gafodd ei osod o'r neilltu cyn hyn mewn cronfa wrth gefn

Tudalen 26

wedi'i chlustnodi, yn ôl y gofyn. Bydd y gwaith o reoli a monitro'r sefyllfa'n gydwobodol yn parhau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

4. CYNLLUNIAU ERAILL GAN LYWODRAETH CYMRU SY'N GYSYLLTIEDIG Â COVID-19

Dyma'r prif gynlluniau sy'n cael eu rheoli hyd yma yn 2021/22:

Rhyddhad rhag talu Ardrethi annomestig cenedlaethol (ardrethi busnes) ar gyfer y sectorau Hamdden, Manwerthu a Lletygarwch	Mae swm o dros £8.5m o ryddhad rhag talu ardrethi annomestig cenedlaethol (ardrethi busnes) wedi ei ddyfarnu i fusnesau cymwys ar gyfer 2021/22
£500 Cynllun Cymorth Hunanynysu	Hyd yma cafwyd taliadau cronol o £107k – Mae'r cynllun bellach wedi'i ymestyn hyd at fis Mawrth 2022
Cronfa Gofal Cymdeithasol Oedolion ar gyfer Darparwyr	Mae'r gronfa hon yn rhan o arian caledi Llywodraeth Cymru ac mae iddi nifer o elfennau amrywiol. Mae wedi bod yn ofynnol cael cynllun grant penodol ar waith ar gyfer darparwyr – mae hwn yn rhedeg ar hyn o bryd hyd at 30/09/21. Bydd yn cael ei ymestyn ymhellach gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n debygol y bydd rhai elfennau yn lleihau'n raddol.
Cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19	Hyd yma gwnaethpwyd taliadau cronol o £24k– mae'r cynllun ar agor hyd 30/09/21
£735 ar gyfer Gofalwyr	Hyd yma, gwnaethpwyd taliadau o dros £1.3m i dros 1,600 Gofalwr. Rhagwelir bod y Cynllun bellach bron â dod i ben.
Cronfa Adferiad Diwylliannol i Weithwyr Llwydd - rownd Mai 2021	Talwyd £48k o grantiau – Mae'r cynllun wedi cau
Cronfa Cadernid Economaidd Grantiau Busnes yn ôl Disgresiwn – Mehefin 2021	Talwyd £76k o grantiau – Mae'r cynllun wedi cau
Cronfa Cadernid Economaidd Grantiau Busnes yn ôl Disgresiwn – Gorffennaf / Awst 2021	Agorodd y cynllun ar 28/07/21 am 2 wythnos – ar hyn o bryd mae ceisiadau'n cael eu hasesu
Y Grant Caledi i Denantiaid	Mae ffrwd ariannu newydd ar gyfer tenantiaid yn y sector preifat ar fin mynd yn fyw yn ystod mis Awst 2021

Yn ogystal â'r rhain mae nifer o gynlluniau grant penodol yn gysylltiedig â COVID-19 yr ydym yn parhau i'w cefnogi ac yn parhau i ddarparu adnoddau ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys Profi, Orlhain a Diogelu (Orlhain Cysylltiadau), digomisiynu Ysbytai Maes Dros Dro, Canolfannau Brechu, y gronfa ar gyfer y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a grantiau amrywiol sy'n gysylltiedig ag Addysg a Phrifyrdd.

5. CASGLIAD

Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn wydn gyda'r targed o gynilion corfforaethol o £2.1 yn y gyllideb sylfaenol bellach wedi ei gyrraedd yn llawn, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r cynilion angenrheidiol gan y Gwasanaethau. Mae cyfraddau casglu Treth y Cyngor yn ystod y flwyddyn bellach yn dechrau perfformio'n nes at yr hyn yr oeddent yn ystod cyfnodau cyn COVID. Yn ogystal, mae cynilion cyllidebol yn awr yn mynd rhagddynt ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf mewn rhai meysydd.

Mae heriau ariannol yn parhau yn yr ystod o wasanaethau o fewn y Pyrth Gydol Oed a Llesiant a bydd angen mynd i'r afael â'r rheiny fel rhan o'r siwrnai drawsnewid yr ydym yn parhau arni, gyda'r meysydd Gofal Cymdeithasol sydd ym mhen uchaf y gyllideb yn dal yn debygol o greu heriau cyllidebol yn y tymor byr.

Yn gyffredinol rhagwelir tanwariant o £358k yn y cyfnod cynnar hwn yn y flwyddyn ac mae effaith ariannol COVID-19 yn un y gellir ei reoli ar hyn o bryd (cyhyd ag y bo Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru yn parhau ac wrth ddefnyddio'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi). Gyda'r economi a chymdeithas yn agor fwyfwy, erbyn hyn mae llawer mwy o optimistiaeth ariannol nag yr oedd ar yr un cyfnod 12 mis yn ôl.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Naddo Integredig?

Os naddo, nodwch pam

Llesiant Dyfodol:	Cenedlaethau'r	Crynodeb: Hirdymor: Amherthnasol Integreiddio: Amherthnasol Cydweithio: Amherthnasol Cynnwys: Amherthnasol Atal: Amherthnasol
Argymhelliad/Argymhellion:		<ul style="list-style-type: none"> i) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (virements) angenrheidiol yn y gyllideb er mwyn cyflawni'r Cynilion Corfforaethol fel y'u hamlinellir yn Adran 2 yr adroddiad – cyfanswm o £2.137m. ii) Nodi'r adroddiad gan gynnwys y trosglwyddiadau (transfers) yn y gyllideb fel y'u hamlinellir yn Adran 2 – cyfanswm o £1.395m.
Rhesymau dros y penderfyniad:		Cyrraedd y targed cynilo Corfforaethol a osodwyd fel rhan o broses Pennu'r Gyllideb 2021/22
Trosolwg a Chraffu:		Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb
Fframwaith Polisi:		Strategaeth Ariannol Tymor Canol
Blaenoriaethau Corfforaethol:		Mae'r Gyllideb yn ategu Amcanion Strategol y Cyngor

Tudalen 28

Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:	Nodwyd yn yr adroddiad
Goblygiadau Cyfreithiol:	Rhan o swyddogaeth a chyfrifoldeb swyddog Adran 151 er mwyn gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn gywir
Goblygiadau Staffio:	Amherthnasol
Goblygiadau Eiddo/Asedau:	Amherthnasol
Risg(iau):	Y risg na fydd digon o arian os ceir gorwariant arwyddocaol. Mae'r risg yn parhau o ran pandemig COVID-19. (Mae risg COVID-19 ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol).
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972
Papurau Cefndir:	Cyllideb Refeniw 2021/22
Atodiadau:	Atodiad A: Cyswllt Cwsmeriaid Atodiad B: Gwasanaethau Democrataidd Atodiad C: Economi ac Adfywio Atodiad D: Cyllid a Chaffael Atodiad E: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Atodiad F: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu Atodiad G: Pobl a Threfniadaeth Atodiad H: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd Atodiad I: Porth Cymorth Cynnar Atodiad J: Porth Cynnal Atodiad K: Porth Gofal Atodiad L: Ysgolion a Diwylliant Atodiad M: Y Grŵp Arweiniol Atodiad N: Ardollau, Premiwm y Dreth Gyngor a Chronfeydd wrth Gefn Steve Johnson
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	
Swyddogion Adrodd:	Duncan Hall a Justin Davies
Dyddiad:	02/08/2021

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Cyswllt Cwsmeriaid / Customer Contact

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Arwyn Morris

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.
It is expected by the service to breakeven during the 2021/22 financial year.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
TGCh / ICT	3,393	834	880	(46)	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Gwasanaethau Cwsmeriaid / Customer Services	1,308	327	255	72	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Gwasanaethau Cymunedol / Community Services	949	232	212	20	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	100	25	25	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	5,750	1,418	1,372	46	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Lowri Edwards****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.
At this stage in the year there are no problem areas identified.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services	1,817	506	493	13	20	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau / Corporate Service Support	1,904	471	467	4	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	400	86	83	3	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	4,121	1,063	1,043	20	20		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Economi ac Adfywio / Economy and Regeneration****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer: Russell Hughes-Pickering****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn rhagwelir tanwariant o £160k, yn bennaf oherwydd cyfuniad o incwm Taliadau Tir yn perfformio'n dda ac arbedion dros dro yn ymwneud â'r strwythur staffio newydd.
At this stage in the year an underspend of £160k is forecast, mainly due to a combination of Land Charges income performing well and temporary savings relating to the new staffing structure.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Eiddo / Property Services	2,658	638	603	35	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
Twf a Menter / Growth & Enterprise	629	149	27	122	80	Mae yna arbedion dros dro yn ymwneud â gweithredu'r strwythur newydd y wasanaeth. There are temporary savings relating to the implementation of the new service structure	I/L
Gwasanaethau Cynllunio / Planning Services	143	88	(15)	103	80	Mae tanwariant y rhagolwg yn ymwneud yn bennaf ag incwm Taliadau Tir sy'n perfformio'n well na'r gyllideb. The forecast underspend mainly relates to Land Charges income out-performing budget.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	59	15	26	(11)	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	3,489	890	641	249	160		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Cyllid a Chaffael / Finance and Procurement

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Steve Johnson

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae'r tanwariant a ragwelir yn ymwneud yn bennaf â swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn ogystal â hynny, bwriedir trosglwyddo £1.5 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn, yn dilyn mabwysiadu Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw diwygiedig. Mae costau'r Cynllun Cymorth Ychwanegol gyda Threth y Cyngor yn is na'r disgwyl ar hyn o bryd ac yn cael eu rheoli drwy ddulliau untro.

The forecasted underspend relates mainly to staff vacancies and additional funding from DWP. In addition a transfer to reserves of £1.5m is planned following the adoption of an amended MRP Policy. Additional Council Tax Support Scheme costs are currently lower than expected and being managed by one-off means.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael / Finance & Procurement Service	3,185	728	600	128	200	Gwnaed arbedion yn sgil swyddi gwag a derbyniwyd cyllid ychwanegol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau Savings on staff vacancies and additional funding received from DWP	I / L
Budd-daliadau Tai a Chynllun Cymorth Treth y Cyngor / Housing Benefits and Council Tax Support Scheme	6,132	6,343	6,343	-	-	Bydd unrhyw wariant dros £6.1miliwn yn cael ei ariannu naill ai o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi a/neu arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru (ni chafwyd cadarnhad ynglŷn â hyn eto). Y dybiaeth oedd y byddai angen oddeutu £500k o gyllid ychwanegol – felly mae'n gadarnhaol mai £6.3m yw lefel y gwariant ar hyn o bryd. Any spend in excess of £6.1m will be funded from either earmarked reserves and/or additional funding from WG (no confirmation on this yet). The assumption was additional funding required would be circa £500k - so it is positive that the current spend level is £6.3m.	C / M
Yswiriant, Terfynu a Chostau Corfforaethol Eraill / Insurance, Termination & Other Corporate Costs	1,746	926	898	28	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I / L
Cyfrif Cyfalaf Corfforaethol / Corporate Capital Account	9,125	3,352	3,391	(39)	-	Dim pryderon – mae swm o £1.5m wedi ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyfalaf Gorrfforaethol wrth gefn o ganlyniad i'r ffaith bod y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw diwygiedig. No concerns - £1.5m has been transferred to the Corporate Capital Reserve as a result of Council adopting an amended MRP Policy	I / L
CYFANSWM / TOTAL	20,188	11,349	11,232	117	200		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol / Highways and Environmental Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Rhodri Llwyd

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.
It is expected by the service to breakeven during the 2021/22 financial year.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Casglu a Gwaredu Gwastraff / Waste Collection & Disposal	4,790	1,055	1,117	(62)	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Parciau a gerddi, Glanhau Priffyrdd, Gwasanaethau Parcio, Harbws / Parks & Gardens, Highways Cleaning, Parking Services, Harbours	28	26	(118)	144	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Cludiant Teithwyr Corfforaethol, Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth / Corporate Passenger Transport, Transport Maintenance Unit	6,431	1,608	1,403	205	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Cynnal a Chadw Priffyrdd, Caffael a Strategaeth, Peirianeg Arfordirol a Gwaith Draenio Tir / Highways Maintenance, Coastal Engineering & Land Drainage Procurement & Strategy	5,120	1,111	1,161	(50)	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Gwasanaethau Priffyrdd, Diogelwch y Ffordd, Rheoli Trafnidiaeth Rhanbarthol / Highways Services, Road Safety, Regional Transport Management	657	174	41	133	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	561	227	223	4	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	17,587	4,200	3,826	374	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Legal & Governance Services****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elin Prysor****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.
At this stage in the year there are no problem areas identified.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Services	661	160	145	15	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
Gwasanaethau Archwilio / Audit Services	597	149	137	12	20	Mae'r arbediad rhagolwg yn ymwneud â Ffioedd Archwilio Allanol. The forecast saving relates to External Audit Fees.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau (gan gynnwys Crwneriaid) / Service Management and Strategy (including Coroners)	280	58	58	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	1,538	367	340	27	20		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Pobl a Threfniadaeth / People & Organisation****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer: Caroline Lewis****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hom o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.
At this stage in the year there are no problem areas identified.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Pobl a Threfniadaeth / People & Organisation	2,013	334	316	18	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	80	20	19	1	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	2,093	354	335	19	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoed / Policy, Performance & Public Protection

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Alun Williams

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem
At this stage in the year there are no problem areas identified

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Partneriaethau a Pherfformiad / Partnerships & Performance	779	192	180	12	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
Diogelu'r Cyhoedd / Public Protection	1,198	423	437	(14)	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem heblaw am y prosiect amgylcheddol mawr. There are no problem areas identified other than the large environmental project.	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	121	25	(21)	46	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	2,098	640	596	44	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Porth Cymorth Cynnar****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elen James****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn rhagweld tanwariant oherwydd swyddi gwag yn bennaf.

The service is operating within the resources available and foresees an underspend due mainly to vacant posts.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau / Lifelong Learning & Skills	67	97	259	(162)	(66)	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem sylweddol. There are no significant problem areas identified.	I / L
Gwasanaethau Cymorth Cynnar / Early Intervention Services	770	598	569	29	60	Mae swyddi gwag wedi arwain at y tanwariant. Vacant posts have led to the underspend.	I / L
Canolfannau Lles / Wellbeing Centres	1,118	335	335	-	-	Mae'r maes gwasanaeth hwn yn dibynnu'n fawr ar incwm. Mae'r rhagolygon yn amodol ar gais llwyddiannus i Gronfa Incwm Coll Llywodraeth Cymru. This service area is highly income dependent. The forecast position is subject to successful Lost Income claims from WG.	C / M
Gwasanaethau Cymorth ac Ymyrraeth / Support and Intervention Services	2,092	780	634	146	95	Mae swyddi gwag wedi arwain at y tanwariant. Vacant posts have led to the underspend.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	-	24	25	(1)	-	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	4,047	1,834	1,822	12	89		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Porth Cynnal

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Sian Howys

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £53k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn gyfnewidiol iawn ac mae'r rhagolwg hwn yn seiliedig ar ymrwymadau hyd yma ac mae yna nifer sylweddol o amrywiannau o fewn y gwasanaeth.

The Service anticipates an overspend by year end of £53k. The service is highly volatile and this forecast is based on known commitments to date and there are a significant number of variances within the service.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gofal wedi'i Gynllunio / Planned Care	9,876	2,925	2,925	-	(17)	Mae'r gorwariant yn bennaf oherwydd taliadau Uniongyrchol i Bobl Hŷn o £92k, gowariant ar Taliad Gofal Maeth £141k, mae Gwelyau Annibynnol Pobl Hyn yn debyg o orwario o £148k sy'n cael ei orbwysu yn rhannol gan danwariant ar costau Gadael Gofal £95k a danwariant ar gyflogau yn y timau oherwydd swyddi gwag £258k. The overspend is mainly due to Older Persons Direct Payments £92k overspend, Boarding Out £141k Overspend, Older People independent Beds £148k overspend partly offset by underspends on Leaving Care costs £95k and £258k on salaries in the teams due to vacant posts.	U / H
Cymorth Estynedig / Extended Support	9,659	2,399	2,399	-	53	Yn bennaf oherwydd i) Taliadau Uniongyrchol gorwariant o £98k, ii) Byw â Chymorth i Bobl ag Anableddau Dysgu gorwariant o £235 ksy'n cael ei orbwysu yn rhannol gan danwariant o £158k ar Gwelyau Bobl ag Anabledd Dysgu, £45k danwariant ar Cysylltiadau Cymunedol a danwariant o £190k oherwydd Swyddi gwag yn y gwasanaeth ac anhawster wrth recriwtio oherwydd Covid. Mainly due to i) Direct Payments £98k overspend, ii) Learning Disabilities Supported Living £235k overspend, partly offset by underspend on LD Beds £158k, £45k underspend on Community Connections and vacant posts in the service and difficulty in recruiting due to Covid - £190k underspend.	U / H
Lles Meddyliol / Mental Wellbeing	2,681	934	934	-	14	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Diogelu / Safeguarding	685	153	153	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Camddefnyddio Sylweddau / Substance Misuse	272	66	69	(3)	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	319	40	65	(25)	(103)	Mae'r gorwariant oherwydd yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer y strwythur Porth newydd. The overspend is due to savings required for the new Porth structure.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	23,492	6,517	6,545	(28)	(53)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Porth Gofal****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Donna Pritchard****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £274k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant yn bennafo ganlyniad i'r defnydd o staffio asiantiaeth o fewn y Tim Maethu ac darged arbedion yn sgil y re-strwythur heb ei gyflawni. Mae'r gwasanaeth yn gyfnewidiol iawn ac mae'r rhagolwg hwn yn seiliedig ar ymrwymadau hyd yma.

The Service anticipates an overspend by year end of £274k. This is mainly due to the use of agency staff within the Fostering team and the savings to be achieved in relation to the restructuring. The service is highly volatile and this forecast is based on known commitments to date.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Uniongyrchol / Direct Services	4,234	970	1,014	(44)	(173)	Mae'r gorwariant oherwydd problemau staffio o fewn y Tim Maethu. The predicted overspend is mainly due to staffing issues within the Fostering Team.	U / H
Gwasanaethau Asesu a Brysbennu Integredig / Targeted and Short Term Services	4,687	1,452	1,452	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	U / H
Gwasanaethau Tymor Byr ac wedi'u Targedu / Integrated Triage and Assessment Services	1,472	395	395	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Gwasanaethau Tai / Housing Services	804	32	32	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	382	48	73	(25)	(101)	Mae'r gorwariant oherwydd yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer y strwythur Porth newydd. The overspend is due to savings required for the new Porth structure.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	11,579	2,897	2,966	(69)	(274)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021**Ysgolion a Diwylliant / Schools & Culture****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Meinir Ebbsworth****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn rhagweld tanwariant oherwydd swyddi gwag yn bennaf.
The service is operating within the resources available and foresees an underspend due mainly to vacant posts.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Ysgolion Cynradd / Primary Schools	18,142	18,142	18,142	-	-	Mae'r cyllid i gyd yn cael ei ddirprwyo i Gyrrff Llywodraethol Ysgolion o 1 Ebrill. All funding is delegated to School Governing Bodies wef 1 April.	I / L
Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools	13,893	13,893	13,893	-	-	Mae'r cyllid i gyd yn cael ei ddirprwyo i Gyrrff Llywodraethol Ysgolion o 1 Ebrill. All funding is delegated to School Governing Bodies wef 1 April.	I / L
Ysgolion Pob Oed / All-through Schools	10,743	10,743	10,743	-	-	Mae'r cyllid i gyd yn cael ei ddirprwyo i Gyrrff Llywodraethol Ysgolion o 1 Ebrill. All funding is delegated to School Governing Bodies wef 1 April.	I / L
Gwella Ysgolion / School Improvement	1,474	293	243	50	40	Mae swyddi gwag wedi arwain at y tanwariant. Vacant posts have led to the underspend.	I / L
Adnoddau Dysgu / Learning Resources	399	(49)	(167)	118	(39)	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem sylweddol. There are no significant problem areas identified.	I / L
Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs	2,112	528	398	130	81	Mae swyddi gwag wedi arwain at y tanwariant. Vacant posts have led to the underspend.	I / L
Gwasanaethau Diwylliannol / Cultural Services	978	234	234	-	-	Mae rhannau o'r maes gwasanaeth hwn yn dibynnu'n fawr ar incwm ac mae'r rhagolygon yn amodol ar gais llwyddiannus i Gronfa Incwm Coll Llywodraeth Cymru. Parts of this service area are highly income dependent and the forecast position is subject to successful Lost Income claims from WG	C / M
Uned Arlwygo Gorfforaethol / Corporate Catering Unit	835	(393)	(423)	30	78	Mae'r maes hwn yn dibynnu'n fawr ar incwm. This service area is income dependent.	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	145	30	27	3	36	Ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem. There are no problem areas identified.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	48,721	43,421	43,090	331	196		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Arweiniol / Leadership

Brif Weithredwr / Chief Executive : Eifion Evans

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Rhagwelir y bydd y costau i gyd yn cael eu hadennill. Bydd y costau sy'n ymwneud â COVID-19 yn cael eu hariannu drwy gyfuniad o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, arbedion a nodwyd ac yr ymdriniwyd â hwy'n gorfforaethol a chronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi.

A break even position is forecast. Costs in relation to COVID19 will be financed by a combination of WG Hardship Fund, Savings identified and treated corporately and Earmarked reserves.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Grŵp Arweiniol / Leadership Group	486	122	111	11	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Arbedion Corfforaethol / Corporate Savings	2,900	-	-	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. The £2.1m Corporate savings target for the year has now been met in full. There are no problem areas identified at present. The £2.1m Corporate savings target for the year has now been met in full.	I / L
Cyllid wrth gefn / Contingencies	65	20	20	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Buddsoddi i Arbed / Invest to Save	-	62	62	-	-	Bydd unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi. In year expenditure will be funded from earmarked reserves.	I / L
Lleoliadau y tu allan i'r Sir / Out of County Placements	1,992	299	308	(9)	-	Mae swm o £200k wedi ei drosglwyddo o'r Gyllideb Arbedion Corfforaethol er mwyn ariannu cynnydd mewn costau yn y maes hwn. £200k has been transferred from the Corporate Savings Budget to fund an increase in costs in this area.	U / H
COVID19 / COVID19	-	2,271	2,271	-	-	Bydd unrhyw ddiffyg o ran cyllid yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi. Any shortfall in funding will be financed from earmarked reserves.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	5,443	2,774	2,772	2	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2021 / Budget Forecast Report June 2021

Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd / Levies, Council Tax Premium and Reserves

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Steve Johnson

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.
It is expected by the service to breakeven during the 2021/22 financial year.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2021 Budget to June 2021 £'000	Gwir wariant hyd at Mehefin 2021 Actuals to June 2021 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2021 Variance to June 2021 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Ardollau / Levies	4,072	1,022	1,021	1	-	Mae risg gorwariant yn fach iawn am y caiff yr ardollau eu gosod yn flynyddol ac ni chânt eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. The risk of overspends is minimal as the levies are set annually and are not revised in year.	I / L
Premiwm Treth y Cyngor / Council Tax Premium	518	-	-	-	-	Mae'r swm sydd ar gael i'w wario yn dibynnu ar y premiwm a gesglir yn ystod y flwyddyn ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ad-daliadau. The amount available to be spent will be dependent on the premium collected during the year after allowing for any refunds.	I / L
Balansau a Chronfeydd wrth gefn / Balances & Reserves	-	-	-	-	-	Nid oes unrhyw feysydd problemus wedi'u nodi ar hyn o bryd. Bydd unrhyw drosglwyddiad i / o'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei ystyried ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd sefyllfa gyffredinol y Cyngor yn hysbys. There are no problem areas identified at present. Any transfer to / from the General Fund will be considered at year end when the overall position for the Council is known.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	4,590	1,022	1,021	1	-		

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 7 Medi 2021****Teitl: Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021 - 2026****Diben yr adroddiad: Cymeradwyo Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021-2026****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth****CEFNDIR:**

Mae gweledigaeth y Strategaeth Gorfforaethol gyfredol yn datgan: “*Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau.*” Cydnabyddir bod ein gweithwyr yn allweddol wrth gyflawni'r weledigaeth hon a bod ganddynt effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drigolion Ceredigion. Fel un o gyflogwyr mwyaf y sir, a gan fod nifer fawr o'n gweithlu hefyd yn drigolion, bydd gwella iechyd a lles ein gweithwyr yn cefnogi gwelliannau mewn iechyd a lles ledled Ceredigion.

Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021 – 2026

Datblygwyd y strategaeth hon ar ôl i un arolwg gweithwyr gael ei gynnal ychydig cyn i bandemig Covid-19 gychwyn, ac un arall ym mis Rhagfyr 2020. Nod y strategaeth yw gwella lles unigolion ac hefyd, yn sgil hynny, gwella lles timau a gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion allweddol o dan bum maes ar wahân a elwir yn 'bilerau lles':

- Amgylcheddau Cadarnhaol
- Polisiâu ac Arferion
- Ffordd Iach o Fyw
- Iechyd Meddwl a Lles
- Diwylliant ac Ymddygiad

Bydd y ffocws yn y lle cyntaf ar hyrwyddo ymddygiadau ffordd o fyw iachach, ymrwymiad i lofnodi Adduned Amser i Newid Cymru (gweithio tuag at ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl), rhaglen i gyflwyno Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a Hyrwyddwyr Lles ar draws y Cyngor, a chreu Grŵp Llywio Iechyd a Lles gyda'r nod o gyflawni'r Safon Iechyd Corfforaethol (Efydd) o fewn y ddwy flynedd gyntaf.

Tudalen 44

Bydd y strategaeth yn cael ei datblygu gan y Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr yn y gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth drwy gydweithio â staff ar draws y Cyngor.

	A oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam Crynodeb: Hirdymor: Nod y Strategaeth yw cefnogi a gwella iechyd a lles hirdymor gweithwyr Cydweithio: Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni Safon Iechyd Corfforaethol Cynnwys: Datblygwyd y strategaeth yn dilyn gwaith ymgysylltu â staff ac undebau llafur Atal: Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â'r heriau iechyd a lles y mae ein gweithlu yn eu hwynebu. Integreiddio:
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	
Argymhelliad:	Argymell bod Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021-2026 yn cael ei chymeradwyo
Y rheswm dros y penderfyniad:	Cefnogi a gwella iechyd a lles hirdymor gweithwyr
Trosolwg a Chraffu:	Adnoddau Corfforaethol 7 Gorffennaf 2021
Fframwaith Polisi:	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Galluogi cydnherthedd unigolion a theuluoedd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb
Goblygiadau Cyfreithiol:	
Goblygiadau Staffio:	
Goblygiadau eiddo/asedau:	
Risgiau:	
Pwerau Statudol:	
Papurau Cefndir:	

Tudalen 45

Atodiadau:	Atodiad 1 – Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021 - 2026
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	17 Awst 2021

Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021-2026

1 Cyflwyniad

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 yn amlinellu'r weledigaeth a ganlyn ar gyfer Ceredigion:

"Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau."

Cydnabyddir bod ein gweithwyr yn allweddol wrth gyflenwi'r weledigaeth hon a bod ganddynt effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drigolion Ceredigion. Rydym yn deall bod y profiad a'r canlyniadau i'n preswylwyr yn gwella pan fo'n gweithwyr yn iach, yn frwdfrydig ac yn hapus. Fel un o gyflogwyr mwyaf y sir, a nifer fawr o'n gweithlu hefyd yn breswylwyr, bydd gwella iechyd a lles ein gweithwyr yn cefnogi gwelliannau mewn iechyd a lles ar hyd a lled Ceredigion.

Dengys tystiolaeth gynyddol y gall y gweithle fod yn lle effeithiol i wella lles unigolion, teuluoedd a chymunedau. Gall bod mewn gwaith gynig gwobrau ariannol, cysylltiadau cymdeithasol, boddhad ac ymdeimlad o berthyn, ystyr a phwrpas. Ceir tystiolaeth yn adroddiad Y Fon Carol Black, 'Building a Healthier Tomorrow' (2008) bod gweithiwr yn fwy cynhyrchiol os yw'n teimlo bod iddo bwrpas, ei fod yn cael ei werthfawrogi gan ei gyflogwr a'i gymheiriaid, ei fod yn gweithredu mewn diwylliant cefnogol ac yn deall sut mae ei gyfraniad yn helpu llwyddiant y sefydliad. Mae hyn yn fanteisiol i'r unigolyn, i'r tîm ac i'r sefydliad cyfan.

2 Gweledigaeth

Datblygu diwylliant sy'n hybu ac yn sefydlu ymddygiadau cadarnhaol mewn perthynas â lles meddyliol, corfforol a chymdeithasol fel bod gan ein cymuned o weithwyr yr adnoddau mewnol a'r cydnherthedd i ymroi'n llawn i'w gwaith a'u bywyd personol.

Datblygu cymuned o weithwyr sy'n rhannu cyfrifoldeb dros iechyd a lles gan ddynodi anawsterau'n gynnar i gyflymu ymyriadau a dargedir mewn modd amserol ac effeithiol.

Mae'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu yn diffinio lles gweithiwr fel a ganlyn

'Creu amgylchedd i hybu stad o fodlonrwydd sy'n caniatáu i weithiwr ffynnu a chyflawni ei botensial yn llawn er ei les ei hun a'i sefydliad.' (Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu 2016)

3 Cefnogi Egwyddorion

Ein Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth sy'n gyrru Iechyd a Lles Gweithwyr gyda chyfarwyddyd ein Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr

Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyflenwi a'i sefydlu drwy bartneriaethau gwaith ar

y cyd ar draws ein sefydliad gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r Grŵp Llywio Iechyd a Lles, Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a Hyrwyddwyr Iechyd a Lles. Bwriedir i'r strategaeth hon lywio'r gwaith a wneir i fodloni Safon Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er bod y strategaeth hon yn uchelgeisiol iawn, bwriedir ei chyflawni dros y 5 mlynedd nesaf.

At ddiben y strategaeth hon, ystyrir bod iechyd a lles yn cofleidio'r person cyfan— iechyd meddwl a chorfforol o fewn ac oddi allan i'r gweithle.

“Mae iechyd yn fwy na diffyg afiechyd neu glefyd yn unig, ac fe'i diffinnir fel ymdeimlad o lesiant corfforol, emosiynol a seciolegol.”

Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (1948)

4 Y cyd-destun cenedlaethol

Mae Arolwg Iechyd a Lles yn y Gwaith 2020, Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu yn dangos bod bron i ddwy ran o dair o sefydliadau'n defnyddio dull strategol o fynd i'r afael â lles. Fodd bynnag, mae dros draean o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn adrodd bod eu sefydliadau'n llawer mwy adweithiol na rhagweithiol. Dyma'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr arolwg, a all helpu i lywio'n Strategaeth Iechyd a Lles:

- Mae **'presenteeism'** (pobl sy'n dod i'r gwaith pan fyddant yn sâl) a **'leavism'** (pobl sy'n gweithio y tu allan i'w horiau contract neu'n defnyddio gwyliau blynyddol ar gyfer eu gwaith neu ar gyfer salwch) yn arferion cyffredin. Mae'r arferion hyn yn ddangosyddion pwysig o ddiwylliant 'iechyd' sefydliad. Nid yw'r arferion hyn yn y gweithle yn iach a gallai'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â nhw fod yn rhai difrifol o ran iechyd meddwl a chorfforol gweithwyr yn ogystal ag o ran cynhyrchiant.
- Mae **cyflyrau iechyd meddwl** yn gyffredin ac ar gynnydd. Gwelodd 3/5 o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus gynnydd mewn cyflyrau iechyd meddwl cyffredin yr adroddwyd arnynt ymysg gweithwyr. At hynny, roedd salwch meddwl yn dal yn un o'r prif achosion o absenoldebau hirdymor ym mhob sector.
- Roedd **absenoldeb yn gysylltiedig â straen** yn gyffredin iawn yn y sector cyhoeddus. Mae dros 2/5 o sefydliadau sector cyhoeddus yn adrodd bod absenoldebau yn gysylltiedig â straen (a achosir, gan amlaf, gan lwyth gwaith trwm) wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf (44% o gymharu â 36% yn y sector preifat a 33% yn y sector nid-er-elw). Straen yw'r achos mwyaf cyffredin o absenoldeb hirdymor yn y sector cyhoeddus.
- Mae lefelau **absenoldeb** gryn dipyn yn uwch yn y sector cyhoeddus. Roedd lefel gyfartalog absenoldeb yn y sector cyhoeddus yn wyth niwrnod, a oedd gryn dipyn yn uwch nag yn y sectorau eraill: (sector gwasanaethau preifat: 4.3 niwrnod; gweithgynhyrchu a chynhyrchu: 6.3 niwrnod; sector nid-er-elw: 5.2 niwrnod).

5 Iechyd a Lles yng Ngheredigion

Yn 2020, casglwyd data am iechyd a lles gweithwyr y Cyngor ar ddau achlysur.

Asesiad o Anghenion Iechyd

Cynhaliwyd Asesiad o Anghenion Iechyd yn ystod Chwefror a Mawrth 2020. Darparodd y data a gasglwyd o'r Asesiad o Anghenion Iechyd hwn linell sylfaen i feincnodi gweithgareddau ac ymyriadau. Cwblhawyd yr arolwg gan **46%** o'r gweithlu. Ni chasglwyd data gan staff a gyflogwyd gan Gyrrff Llywodraethol Ysgolion.

Mae'r meysydd yr ymdrinnir â nhw yn yr asesiad o anghenion iechyd yn adlewyrchu'r rhai yn y 'Safon Iechyd Corfforaethol' sy'n nod ansawdd cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer iechyd a lles yn y gweithlu. Gellir diffinio'r rhain, yn eu hanfod, yn ymddygiadau iechyd sy'n gysylltiedig â 'ffordd o fyw'.

Gofynnwyd cwestiynau am ddiwylliant y gweithle hefyd er mwyn mesur rhywfaint o'r effaith y gall y sefydliad ei hun ei gael ar les unigolyn neu dîm. Gofynnwyd set ychwanegol o gwestiynau i'r rhai â chyfrifoldebau rheolwr llinell er mwyn asesu eu lefelau o hyder a chymhwysedd wrth ddelio â materion yn ymwneud â iechyd a lles y rhai y maent yn reolwyr arnynt. Gall y cwestiynau hyn, hefyd, helpu i ddangos unrhyw rwystrau ar gyfer y gweithgareddau hynny y gallent feddwl eu bod yn bodoli.

Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws

Cynhaliwyd arolwg byr pellach ar gyfer y gweithlu ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn canolbwyntio ar effaith pandemig y Coronafeirws ar iechyd, lles a bywyd gwaith. Gofynnodd yr arolwg hefyd am farn y gweithlu ynghylch y wybodaeth a'r ddarpariaeth a oedd ar gael ar eu cyfer. Gwahoddwyd Cyrrff Llywodraethol Ysgolion hefyd i gymryd rhan yn yr arolwg. Cwblhawyd yr arolwg gan 18% o'r gweithlu.

Y Prif Ganfyddiadau

Iechyd a Lles

Asesiad o Anghenion Iechyd

77%

Iechyd yn dda neu'n dda iawn yn gyffredinol

28%

150 munud neu fwy o weithgarwch corfforol cymedrol yr wythnos

Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws

57%

Lles meddyliol yn dda neu'n dda iawn

72%

Eithaf bodlon neu fodlon iawn â bywyd

15%

Yn smygu bob dydd neu weithiau

57%

O'r farn bod y Coronafeirws wedi arwain at ddirywiad yn eu lles

31%

26%

47%

Yn bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau neu lysiau y dydd

Yn yfed alcohol 2 waith neu fwy yr wythnos

Yn profi ynysu cymdeithasol

Gwybodaeth a Chefnogaeth

Asesiad o Anghenion Iechyd

70%

Yn well ganddynt dderbyn gwybodaeth a chefnogaeth drwy e-bost

64%

Yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o wneud gweithgareddau cerdded

60%

Yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o gymryd rhan mewn sesiynau blasu yn ein cyfleusterau hamdden

61%

Yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o wneud gweithgarwch corfforol yn y gwaith petai cawodydd/cyfleusterau newid ar gael

Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws

69%

Yn gwybod sut a lle i gael gfael ar gymorth ar gyfer eu lles

58%

Yn teimlo bod y wybodaeth y maent wedi mynd ati yn gefnogol ac o gymorth

65%

Yn teimlo bod cymorth a chefnogaeth ar gael iddynt

Diwylliant

Asesiad o Anghenion Iechyd

76%

Bodlon neu fodlon iawn gyda bywyd gwaith

75%

Bodlon neu fodlon iawn gyda'r gweithle

78%

Cytuno neu gytuno'n gryf bod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd

60%

Yn cael y swydd yn eithaf streslyd neu'n streslyd iawn

Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws

63%

Cytuno neu gytuno'n gryf bod y Cyngor yn poeni am fy lles

65%

Cytuno neu gytuno'n gryf bod cefnogaeth ar gael os yw rhywun yn teimlo dan straen neu'n bryderus yn y gwaith

70%

Cytuno neu gytuno'n gryf bod y cyfathrebu'n dda

81%

Wedi mynd i'r gwaith pan oeddent yn teimlo eu bod yn rhy sâl i weithio

Rheolaeth Llinell

Asesiad o Anghenion Iechyd

88%

Cytuno neu gytuno'n gryf y gallant gael cyfarfodydd 1:1 gyda'u rheolwr llinell

87%

Cytuno neu gytuno'n gryf bod cyfleoedd i ddatblygu cyfeillgarwch

71%

Cytuno neu gytuno'n gryf eu bod yn cael eu clywed

88%

Cytuno neu gytuno'n gryf y byddent yn cael cefnogaeth i ofalu am aelod o'r teulu

Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws

78%

Cytuno neu gytuno'n gryf bod ganddynt ddigon o gyswllt â'u rheolwr llinell

74%


Cytuno neu gytuno'n gryf bod y tîm yn cyfathrebu'n dda ac yn cadw cysylltiad

Mae'r data a gasglwyd gan ein gweithlu yn tynnu sylw at bwysigrwydd bodloni anghenion iechyd a lles ein gweithwyr. Drwy wneud hynny, mae angen i ni sicrhau bod y ddarpariaeth yn berthnasol, yn ystyrlon, yn ymatebol ac yn hygyrch i'r holl weithlu.

Nod y strategaeth hon yw gwella lles unigolion yn ogystal â lles ein timau/gwasanaethau, y Cyngor cyfan a'r gymuned yr ydym yn byw a gweithio ynddi.

Yn bwysicaf oll, mae ond yn iawn ein bod yn ceisio dod yn gyflogwr o ddewis a'n bod yn rhagweithiol wrth gefnogi lles ein staff—ein hadnodd mwyaf.

6 Pileri lechyd a Lles



Amgylcheddau Cadarnhaol

Byddwn yn creu, gwella a chynnal amgylcheddau gweithio cadarnhaol a chefnogol ar draws ein sefydliad. Gwneir hyn drwy sefydlu trefn lywodraethu a chyflwyno gweithgor/grŵp llywio lechyd a Lles gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad a rhwydwaith o hyrwyddwyr lles a fydd yn meithrin a hybu amgylchedd gwaith cefnogol. Y Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr fydd yn cydlynu'r gweithgarwch hwn.

Nodau 2021

- Byddwn yn creu ac yn sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr lles i hybu lles ar draws ein sefydliad.
- Byddwn yn archwilio i fanteision cwblhau asesiad risg sefydliadol i ddynodi'r ffactorau sy'n achosi straen a llunio cynllun gweithredu i reoli'r rhain.
- Byddwn yn creu'r broses lywodraethu gan gynnwys sefydlu Grŵp Llywio Iechyd a Lles (i gynnwys cynrychiolwyr o'r Grŵp Arweiniol, Iechyd a Diogelwch a'r Undebau Llafur) ar sail ein Strategaeth Iechyd a Lles er mwyn datblygu lles ar draws ein sefydliad.

2023

- Byddwn wedi sefydlu ein rhwydwaith o hyrwyddwyr lles a fydd yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'n cymuned o weithwyr.
- Byddant yn hwyluso ac yn cofnodi gweithgarwch lles sefydliadol, cydweithio â hyrwyddwyr lles eraill ar draws y sefydliad ac adrodd i'r Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr.

Polisiau ac Arferion

Byddwn yn sicrhau bod lles yn rhan annatod o'n polisiau AD, ein harferion wrth ymwneud â phobl a'n rhaglenni arweinyddiaeth a rheoli, gan roi'r ffocws ar bobl. Bydd ein strategaeth les yn galluogi rheolwyr ac arweinwyr i ddatblygu timau sy'n meithrin lles. Byddwn yn creu, gwella a chynnal amgylcheddau gwaith cadarnhaol a chefnogol ar draws ein sefydliad.

Nodau

2021

- Bydd lles yn rhan annatod o'n rhaglenni arweinyddiaeth a rheoli a'n harferion wrth ymwneud â phobl hefyd. Bydd ein strategaeth les yn galluogi rheolwyr ac arweinwyr i ddatblygu timau sy'n meithrin lles.
- Byddwn yn adolygu ein polisiau AD gyda'r bwriad o gynnwys agweddau ar les, eu gwneud yn fwy hygyrch a chyfeillgar i'r defnyddiwr gan roi ein pobl yn ganolog i'n polisiau.

2023

- Bydd lles yn ganolog i'n rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a rheoli. Enghreifftir hyn yn y modd y mae ein rheolwyr yn arwain eu pobl.
- Bydd y diwylliant ar draws ein sefydliad yn gadarnhaol a bydd yn cofleidio newid a gwahaniaeth
- Bydd pobl yn agored i Les gan y bydd hyn yn rhan o'u ffordd o feddwl bob dydd. Gallant gael mynediad at y wybodaeth y mae ei hangen arnynt mewn ffordd sy'n bodloni eu hanghenion er sicrhau darpariaeth gynhwysol.

Ffordd o fyw iach

Byddwn yn canolbwyntio ar y chwe elfen o arfer ffordd o fyw iach, fel y'u mabwysiedir yn y Safon Iechyd Corfforaethol (Cymru Iach ar Waith). Mae'r rhain fel a ganlyn: Defnydd o Dybaco, Iechyd Meddwl a Lles, Anhwylderau Cyhyrysgerbydol, Camddefnyddio Alcohol, Cyffuriau a Sylweddau Eraill, Iechyd a Lles a Bwyd, a Gweithgarwch Corfforol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n hyrwyddwyr lles i hybu a hwyluso ymddygiadau ar gyfer ffordd o fyw iach drwy ystod o ddulliau a sianeli cyfathrebu.

Nodau

2021

- Byddwn yn hybu ymddygiadau ar gyfer ffordd o fyw iach yn unol â negeseuon iechyd cyhoeddus a bydd hyn yn cynnwys adnoddau ar-lein a gweithdai.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Ceredigion Actif ac yn sefydlu grwpiau gweithgarwch corfforol: e.e. loga, rhedeg, cerdded gyda'r nod o annog a galluogi gweithwyr i fod yn fwy egniol.
- Byddwn yn llunio canllawiau ar sut i gynllunio, hyrwyddo a rheoli digwyddiadau heriau corfforol ar gyfer unigolion a thimau.
- Byddwn yn hyrwyddo partneriaethau lleol a all gefnogi ffyrdd o fyw iach i staff a myfyrwyr. Gallai'r rhain gynnwys clybiau iechyd, grwpiau cerdded, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o alcohol a mentrau bwyta'n iach.

2023

Tudalen 53

- Bydd ein pecynnau cymorth mewn perthynas â ffordd o fyw iach ar gael i staff. Bydd y rhain yn cynnwys canllawiau ymarferol ar y chwe maes uchod sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw iach.
- Bydd gan staff fynediad at holiadur lles a fydd yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad iddynt yn y meysydd y mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt.
- Bydd ein hadnoddau ar-lein yn cael eu defnyddio gan staff i'w galluogi i wneud newidiadau mewn perthynas â'u hiechyd a'u ffordd o fyw ac yn eu cyfeirio at gefnogaeth ychwanegol os nad yw hunangymorth yn ddigonol.
- Byddwn yn cysylltu â gwasanaethau stopio smygu lleol ac yn sefydlu gwasanaethau stopio smygu yn y gwaith i staff sy'n barod i roi'r gorau i smygu. Drwy ein hymgyrch stopio smygu mewn partneriaeth â *Helpa fi i Stopio* byddwn yn gwneud staff yn ymwybodol o beryglon smygu ac yn cefnogi staff i roi'r gorau i smygu.

Iechyd meddwl a lles

Byddwn yn rhagweithiol wrth annog a chefnogi staff i gynnal iechyd meddwl da. Byddwn yn llofnodi'r Adduned Amser i Newid Cymru, i weithio tuag at gael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl yn ein sefydliad. Yn ychwanegol at hyn, bydd pecynnau cymorth ar-lein ar gael, hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth a defnydd o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a hyrwyddwyr Lles a fydd yno i gefnogi ac i gyfeirio at wybodaeth a chymorth arbenigol. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaeth Rhaglen Cymorth i Weithwyr: Gofal yn Gyntaf i staff ochr yn ochr â'r ddarpariaeth 'galw heibio' ar gyfer lles

Nodau

2021

- Byddwn yn creu pecynnau cymorth ar-lein ar gyfer Cydnerthedd a Straen i'w galluogi i fynd at wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt, yn eu galluogi i fod yn barod am newid ac yn fwy parod i ymdopi â newidiadau mewn bywyd.
- Byddwn yn cyflenwi hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch iechyd meddwl, gan gynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a hybu iechyd i'n rhwydwaith o hyrwyddwyr lles, ac yn darparu gwybodaeth i gyfeirio ati.
- Byddwn yn hyrwyddo ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr: Gofal yn Gyntaf i staff ochr yn ochr â darpariaeth 'galw heibio' ar gyfer lles.
- Byddwn yn llofnodi Adduned Amser i Newid Cymru i weithio tuag at gael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl yn ein sefydliad gan greu Cynllun Gweithredu Amser i Newid a gaiff ei sefydlu ar draws y sefydliad.
- Byddwn yn creu rhwydwaith o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws ein sefydliad.

2023

- Bydd gennym ddiwylliant lle y bydd pobl yn teimlo y gallant siarad yn fwy agored am eu hiechyd meddwl, fel y maent yn ei wneud am iechyd corfforol. Byddwn yn teimlo y gallwn ddatgelu problemau iechyd meddwl heb ofni.
- Bydd y stigma ynghylch iechyd meddwl yn lleihau wrth i ni weithio drwy ein cynllun gweithredu ar ôl llofnodi'r adduned Amser i Newid Cymru.

Diwylliant ac Ymddygiad

Byddwn yn sefydlu hybu iechyd yn y gweithle er mwyn meithrin diwylliant sy'n

Tudalen 54

galluogi cefnogaeth. Rhoddir hyfforddiant ar hybu iechyd i'n hyrwyddwyr lles i'w galluogi i hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus yn eu meysydd gwaith. Byddwn yn cyflawni'r Safon Iechyd Corfforaethol (Efydd) a ddyfernir gan Cymru Iach ar Waith gan sicrhau ein bod yn cadw at yr aferion gorau.

Nodau

2021

- Byddwn yn rhoi hyfforddiant hybu iechyd i'n hyrwyddwyr lles i'w galluogi i hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus yn eu meysydd gwaith. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio at gefnogaeth i newid ymddygiad ac ymwybyddiaeth mewn meysydd fel y defnydd o alcohol, smygu, maeth a bwyta'n iach, rheoli pwysau ac ymarfer corff.
- Byddwn yn cyflawni'r 'Safon Iechyd Corfforaethol' (Efydd) a ddyfernir gan Cymru Iach ar Waith gan sicrhau ein bod yn cadw at yr arferion gorau. Mae hwn yn gynllun gwobrwyo sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gymeradwyr gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddwn yn cyflenwi o leiaf bedair ymgyrch iechyd y flwyddyn gan ganolbwyntio ar fentrau iechyd allweddol.

2023


- Bydd ein tudalennau mewnwyd iechyd a lles yn ddeinamig ac yn galluogi ein cymuned i gael mynediad at negeseuon hybu iechyd a dulliau gweithredu hunangymorth ochr yn ochr â chyfeirio at gefnogaeth o fewn y sefydliad ac oddi allan iddo.
- Bydd ein hyrwyddwyr Lles yn cefnogi pobl sy'n barod i wneud newidiadau cadarnhaol drwy gyfeirio effeithiol a gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael.
- Bydd ein hymgyrchoedd Iechyd a Lles yn werthfawr iawn i bobl ymhel â nhw, er eu lles eu hunain, eu timau a'n sefydliad yn gyfan.

7 Rolau a Chyfrifoldebau Grŵp Arweiniol

Cefnogi a hyrwyddo'r strategaeth.

Sicrhau derbyniad ar draws y sefydliad drwy gymeradwyo'r strategaeth a dilysu ei phwysigrwydd wrth sicrhau lles a'r manteision sy'n gysylltiedig ag ef i unigolion ac i'r sefydliad cyfan.

Bydd y gweithredoedd hyn o gymorth i oresgyn rhwystrau sefydliadol, sicrhau buddsoddiad mewn adnoddau, ei sefydlu mewn busnes craidd, ei blaenoriaethu fel buddsoddiad strategol a hybu ymgysylltu ar draws y sefydliad.



Gweithgor/Grŵp Llywio Iechyd a Lles

Bydd y grŵp yn rhan o'r broses lywodraethu sy'n gysylltiedig â lles ac sy'n angenrheidiol i gynorthwyo gyda llwyddiant y Strategaeth. Bydd yn dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd ar draws Cyngor Sir Ceredigion a bydd yn cynnwys cynrychiolydd o'r Grŵp Arweiniol, Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr a chynrychiolaeth o'r Undebau Llafur.

Bydd yn rhoi arweiniad a sicrwydd i bob rhanddeiliad mewn perthynas â nodau'r strategaeth iechyd a lles.

Bydd y grŵp yn bodoli nid fel fforwm ymgynghorol yn unig, ond caiff ei sefydlu i sicrhau bod gweithredoedd arwyddocaol yn cael eu dynodi a'u rhoi ar waith mewn ffordd y gall y Cyngor ddangos bod iechyd a lles yn cael eu rheoli'n effeithiol fel blaenoriaeth strategol.

Bydd yn hwyluso dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar les a fydd yn meithrin arloesedd, creadigrwydd, cynhyrchiant ac ymgysylltu yn ein sefydliad.

Hyrwyddwyr Iechyd a Lles

Bydd rhwydwaith o hyrwyddwyr yn cynnwys unigolion ar draws y sefydliad yn cael ei sefydlu. Eu rôl fydd:

- cefnogi'r Strategaeth Iechyd a Lles drwy hyrwyddo gweithgareddau yn eu meysydd gan annog cydweithwyr i fanteisio ar gyfleoedd iechyd a lles perthnasol, casglu data gweithgarwch, rhannu arferion da a hanesion o

Tudalen 56

lwyddiant.

- meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar draws y Cyngor.
- hwyluso a chofnodi gweithgarwch lles lleol gan weithio ar y cyd â hyrwyddwyr lles eraill ar draws y sefydliad gan adrodd i'r Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr.

Rheolwyr Llinell

Bydd rôl rheolwyr llinell wrth weithredu'r Strategaeth yn allweddol. Bydd angen iddynt ddangos gwerth y strategaeth i staff ar draws y sefydliad.

Disgwylir i arweinwyr a rheolwyr fod yn fodelau rôl ar gyfer lles gan fod ganddynt ran ganolog wrth greu diwylliant o les.

Bydd gofyn iddynt roi cyfathrebu da ac arweinyddiaeth effeithiol ar waith i alluogi newid cadarnhaol a thro diwylliannol er mwyn hwyluso/cyfrannu at lwyddiant y Strategaeth.

Gweithwyr

Nid adnodd cyfarwyddol yw'r Strategaeth felly bydd gan weithwyr unigol gyfrifoldeb o hyd dros eu hiechyd a'u lles eu hunain yn ogystal â'u cydweithwyr.

Bydd angen i unigolion allu cydnabod beth sy'n cyfrannu at eu lles a'r rôl y mae'n ei chwarae wrth eu galluogi i fyw bywyd cytbwys a chyfoethog.

Drwy fecanweithiau'r strategaeth bydd y gweithiwr unigol, neu dylai'r gweithiwr unigol, gael y cyfle i wneud dewisiadau sy'n blaenoriaethu ei les.

8 Mesur Llwyddiant

Nid rhywbeth un dimensiwn yw llwyddiant ac mae nifer o fesurau, ffactorau ac agweddau i'w hystyried o fewn y cyd-destunau sefydliadol a lles. Felly, mae proses gadarn yn angenrheidiol i adlewyrchu'n barhaus ac adolygu'r modd y cyflenwir y strategaeth hon gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol, a thrwy ddeialog barhaol gyda staff, rheolwyr a rhanddeiliaid eraill.

Byddwn yn defnyddio mesurau a dulliau gan osod targedau clir er mwyn monitro cynnydd.

- Cynnal arolwg Iechyd a Lles bob blwyddyn.
- Cynnwys cwestiwn/cwestiynau iechyd a lles penodol i Geredigion yn yr arolwg staff.
- Gwelliant yng nghanfyddiadau arolygon staff ac arolygon cryno dros gyfnod y strategaeth.
- Cynnydd yn yr ymgysylltu o ran yr arolwg staff Iechyd a Lles.
- Byddwn yn defnyddio ein data absenoldeb i greu llinell sylfaen ac yn adrodd yn erbyn hwn bob blwyddyn.
- Monitro cyfranogiad yn y sesiynau 'galw heibio' iechyd a lles a chyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol.
- Defnydd o'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Tudalen 57

- Cyflawni Gwobr Efydd (yn y lle cyntaf) y Safon Iechyd Corfforaethol. Ymrwymiad i symud ymlaen i lefel gwobrau uwch.
- Casglu data bob chwarter gan yr hyrwyddwyr Lles a'r Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.
- Rhannu cynllun gweithredu ein menter 'Amser i Newid' sy'n anelu at gael gwared ar y stigma mewn perthynas â iechyd meddwl.
- Pan fydd yr Adduned wedi'i llofnodi byddwn wedyn yn cael ein mesur yn erbyn y cynllun gweithredu.

DRAFT

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mae'r **Aseiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig	Y Strategaeth Iechyd a Lles
----------------	-----------------------------

Maes gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Geraint Edwards	Cyfarwyddwr Corfforaethol	Caroline Lewis
-----------------	----------------------	---------------------------------	-----------------	---------------------------	----------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Clint Middleton	E-bost	clint.middleton@ceredigion.gov.uk	Ffôn	01970 633933
----------------------------------	-----------------	--------	-----------------------------------	------	--------------

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae hon yn strategaeth newydd ar gyfer holl weithwyr Cyngor Sir Ceredigion a'i nod yw gwella iechyd a lles unigolion a hefyd, yn sgil hynny, iechyd a lles timau a gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn cyflwyno ein nodau allweddol o dan bum maes ar wahân a ddynodir yn 'bileri lles':

- Amgylcheddau Cadarnhaol
- Polisiâu ac Arferion
- Ffordd Iach o Fyw
- Iechyd Meddwl a Lles
- Diwylliant ac Ymddygiad

Bydd y ffocws yn y lle cyntaf ar hyrwyddo ymddygiadau ffordd o fyw iachach, ymrwymiad i lofnodi'r Adduned Amser i Newid Cymru (gweithio tuag at ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl), rhaglen i gyflwyno Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a Hyrwyddwyr Lles ar hyd a lled y Cyngor, a chreu Grŵp Llywio Iechyd a Lles gyda'r nod o gyflawni'r Safon Iechyd Corfforaethol (Efydd) o fewn y ddwy flynedd gyntaf.

Swyddog Iechyd a Lles y Gweithwyr yn yr Adran Pobl a Threfniadaeth fydd yn gyrru'r strategaeth gan weithio'n gydweithredol ar hyd a lled y Cyngor.

Mae'r polisi wedi'i rannu â'r Undebau Llafur perthnasol ac mae Grŵp Arweiniol y Cyngor wedi rhoi ei gefnogaeth lawn.

Tudalen 58

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Pob gweithiwr

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
Clint Middleton		Fersiwn 1		

AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?

Hybu'r Economi	Bydd y strategaeth hon yn cefnogi'r Cyngor yn ei nod o fod yn gyflogwr y mae pobl yn dymuno gweithio iddo.
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl	
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	Bydd y strategaeth hon yn rhoi cymorth i weithwyr o ran eu hiechyd a'u lles.
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.	

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*

Tudalen 59



- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol	Nod y strategaeth hon yw cefnogi a gwella iechyd a lles hirdymor holl weithwyr y Cyngor. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gadw staff.	Byddwn yn casglu ac yn monitro tystiolaeth am iechyd a lles y staff drwy gynnal arolwg staff blynyddol.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau	Bydd y strategaeth hon yn cefnogi'r Cyngor i gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol Efydd, sy'n safon genedlaethol ac sy'n gofyn am gydweithio â'r corff dyfarnu.	Rydym wedi gofyn am arweiniad a gwybodaeth gan wahanol sefydliadau a chyrrff yn y maes hwn er mwyn dylanwadu ar y polisi hwn.	Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid wrth i'r strategaeth hon gael ei gweithredu a'i datblygu ymhellach.
Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn	Datblygwyd y strategaeth hon yn dilyn ymarfer ymgysylltu mawr gyda holl staff y Cyngor. Mae profiadau a sylwadau ein swyddog iechyd a lles, yn enwedig yn ystod cyfnod y pandemig, hefyd wedi dylanwadu'n fawr ar y strategaeth hon.	Mae'r strategaeth yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r ymarferion ymgysylltu a gynhaliwyd, ac mae'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen yn seiliedig ar y dystiolaeth hon.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu. Byddwn hefyd yn cynnal arolygon staff rheolaidd a gweithgareddau ymgysylltu eraill.



<p>Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu</p>	<p>Nod y strategaeth hon yw mynd i'r afael â'r heriau o ran iechyd a lles y mae ein gweithlu'n eu hwynebu, a darparu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi eu lles yn gyffredinol.</p>	<p>Byddwn yn casglu ac yn monitro tystiolaeth am iechyd a lles y staff drwy gynnal arolwg staff blynyddol.</p>	<p>Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu. Byddwn hefyd yn cynnal arolygon staff rheolaidd a gweithgareddau ymgysylltu eraill.</p>
<p>Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill</p>			

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
<p>3.1. Cymru lewyrchus Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi</p>			
<p>3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)</p>			

Tudalen 61

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd</p>	<p>Wrth roi'r polisi hwn ar waith, y nod yw gwella lles corfforol a meddyliol yr holl staff sy'n gweithio i'r Cyngor.</p>	<p>Byddwn yn casglu ac yn monitro tystiolaeth am iechyd a lles y staff drwy gynnal arolwg staff blynyddol.</p>	<p>Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.</p>
<p>3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</p>			
<p>3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol</p>			

Tudalen 62

<p>3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p> <p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</p> <p><i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:</p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p> <p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n</i></p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p> <p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r</i></p>	<p>Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i</i></p>
--	---	---	---

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Comisiwn Cydraddoldeb - Aseu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb				<i>dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i>	<i>blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i>	<i>bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i>
Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr, beth bynnag fo'u hoedran.	Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Tudalen 63

Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr gan gynnwys pobl ag anableddau. Un o nodau allweddol y strategaeth hon yw cefnogi iechyd meddwl a lles, ac felly credwn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol.	Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr beth bynnag fo'u rhyw.	Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio Iechyd a Lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Tudalen 64

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth lechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Mae'r Strategaeth lechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth lechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Mae'r Strategaeth lechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth lechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at weithwyr o bob hil.	Mae'r Strategaeth lechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Tudalen 65

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			strategaeth gael ei gweithredu.
			✓			
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr beth bynnag fo'u crefydd.	Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Tudalen 66

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddyinion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth lechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr beth bynnag fo'u rhyw	Mae'r Strategaeth lechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r Strategaeth lechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol	Mae'r Strategaeth lechyd a Lles yn cynnwys cymorth a gwasanaethau i'r holl staff, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.	Byddwn yn sefydlu grŵp llywio iechyd a lles ac yn gweithio gyda'r grŵp hwnnw i geisio sicrhau effeithiau cadarnhaol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Tudalen 67



Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles, gan gynnwys ei nodau a'i phileri lles, wedi'i hanelu at bob gweithiwr beth bynnag fo'u nodweddion gwarchoddedig. Bydd gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus yn ein galluogi i gefnogi ein gweithlu a'n helpu i ddod yn gyflogwr y mae pobl yn dymuno gweithio iddo.

3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Ddim yn berthnasol

3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Fel y cyflogwr mwyaf yn y sir mae'n bwysig bod y Cyngor yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a lles ei weithlu a'r gymuned ehangach, a'i fod yn annog sefydliadau eraill i gymryd camau tebyg.



Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.

3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?

Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith positif/negyddol neu effaith ddibwys.

Disgwylir i'r strategaeth hon gael fawr ddim effaith ar sefyllfa economaidd-gymdeithasol y staff. Nod y strategaeth yw cefnogi iechyd a lles hirdymor yr holl staff, gyda'r nod o gadw staff yn yr hirdymor.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Dangosodd arolwg staff yn ddiweddar yr angen a'r galw am y strategaeth hon.

Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif?

Rhoi gwybod i'r holl staff am y strategaeth fel eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a'r manteision sydd ar gael.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Strategaeth ddwyieithog yw hon a bydd unrhyw gyfathrebu neu weithgareddau eraill yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg		
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓			
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓			
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓			
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓			

Tudalen 70



diwylliant a threftadaeth lleol?						
----------------------------------	--	--	--	--	--	--

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Ddim yn berthnasol			

Tudalen 71

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.
(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Ddim yn berthnasol

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Ymgysylltu â'r grŵp llywio iechyd a lles newydd a'i gynnwys yn y gwaith o weithredu'r polisi hwn
 Arolwg blynyddol i fonitro iechyd a lles y staff.

5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg
Os na weithredir y strategaeth, mae'n bosibl y bydd hi'n anodd cadw staff.	4		3		12
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
Bydd gweithredu'r polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar staff ym mhob maes gwasanaeth.					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Clint Middleton		05/07/2021
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Geraint Edwards		05/07/2021
Y Cyfarwyddwr Corfforaethol			
Deiliad y Portffolio			

Tudalen 72

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	07 09 2021
LLEOLIAD:	Cyfarfod Rhithiol
TEITL:	Strategaeth Iechyd a Lles 2021-2026
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2021

CEFNDIR:

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2021, ystyriodd yr Aelodau Strategaeth Iechyd a Lles 2021-2026.

Yn ystod y drafodaeth, roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y pandemig wedi arwain at lai o absenoldebau oherwydd salwch. Awgrymwyd y dylai adroddiad ynglŷn ag absenoldebau oherwydd salwch gael ei gyflwyno gerbron un o gyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

ARGYMHELLIAD:

- Argymell bod Strategaeth Iechyd a Lles y Gweithwyr ar gyfer 2021-2026 yn cael ei chymeradwyo.

Cytunodd yr Aelodau i argymell i'r Cabinet bod Strategaeth Iechyd a Lles y Gweithwyr ar gyfer 2021-2026 yn cael ei chymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiad mewn modd clir a chryno.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	7 Medi, 2021
Teitl:	Sicrhau safle ar gyfer darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion.
Pwrpas yr adroddiad:	Cael cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn i Awdurdod Lleol Ceredigion weithredu fel Bancer Lleol ar gyfer Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn Aberystwyth.
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dafydd Edwards, Aelod o'r Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid

Cefndir

Mae'r swyddfeydd yn 25 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth wedi'u defnyddio fel canolfan ar gyfer darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ers nifer o flynyddoedd, gyda chymorth Cyngor Sir Ceredigion. Ers 2015 mae'r lleoliad yn ganolfan i Barod, sefydliad arbenigol ym maes camddefnyddio sylweddau (*Drugaid gynt*) ac yn 2016 cefnogodd y Cabinet y penderfyniad i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru am bum mlynedd i sicrhau'r brydles ar gyfer y safle.

Mae'r ganolfan yn Rhodfa'r Gogledd yn un amlasiantaethol ym maes camddefnyddio sylweddau ac fe'i lleolir yng nghanol tref Aberystwyth. Mae'r adeilad yn gartref i DDAS (Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed) sy'n darparu gwasanaethau cyfiawnder troseddol integredig a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyffredinol wedi'u hanelu at oedolion. Maen nhw hefyd yn rhoi cymorth a chynghor i "bobl eraill bryderus", sef perthnasau neu ffrindiau'r sawl sy'n camddefnyddio sylweddau. Yn yr adeilad hefyd mae Cyfle Cymru, sef prosiect mentora cymheiriaid sy'n gweithio gyda thîm adfer DDAS er mwyn cefnogi unigolion sydd wedi bod drwy driniaeth camddefnyddio sylweddau i fynd yn ôl i wirfoddoli, astudio a gweithio. Wedi'u lleoli hefyd yn Rhodfa'r Gogledd mae staff Choices, sef gweithwyr camddefnyddio sylweddau proffesiynol ar gyfer unigolion o dan ddeunaw oed. Mae Choices hefyd yn wasanaeth dan arweiniad Barod. Ar hyn o bryd mae'r adeilad hefyd yn gartref i staff tîm 'cymorth fel bo'r angen' Cefnogi Pobl, ac ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan grwpiau cydgymorth gan gynnwys Alcoholics Anonymous a Narcotics Anonymous.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir o Rodfa'r Gogledd yn cynnwys:

- Cyfnewid nodwyddau
- Profion am Feirysau a Gludir yn y Gwaed
- Cynghor ar Chwistrellu mwy diogel

Tudalen 76

- Ymyriadau Byr
- Ymyriadau Lleihau Niwed
- Sgrinio ar gyfer Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol
- Gwaith grŵp megis "bwrw ymlaen gyda fy adferiad"
- Ymwybyddiaeth Ofalgar i atal person rhag llithro'n ôl
- Hyfforddiant i Rieni a Gofalwyr

Nod canolfan Rhodfa'r Gogledd yw cyflawni sawl mantais er budd y gymuned. Mae'r holl waith craidd o fudd i'r gymuned leol. Y nod yw mynd i'r afael â'r costau o ran iechyd, niwed a throseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Hefyd, tywys oedolion sy'n economaidd anweithgar ac sy'n fynych yn fregus i mewn i fyd addysg, hyfforddiant neu waith a chefnogi mentrau ac ymgyrchoedd iechyd a chymunedol eraill.

Y Sefyllfa Bresennol

Daw'r cyllid ar gyfer y rhent i ben ar 24 Rhagfyr 2021 ac er mwyn sicrhau'r safle, gwnaeth y Bwrdd Partneriaeth Ardal - ar ran Barod - gais i Lywodraeth Cymru am gyllid Grant Cyfalaf i sicrhau tair blynedd arall yn yr adeilad hwn.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ardal yn gofyn i Gyngor Sir Ceredigion weithredu fel Bancer os bydd y cais hwn yn llwyddiannus, fel y gwnaethom bum mlynedd yn ôl.

Mae'r cais i Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru - y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau - yn ymwneud â phrydlesu Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, am dair blynedd gan ofyn am gyfanswm o £183,600.00 o gyllid.

Casgliad

Byddai peidio â chael canolfan sicr yn Aberystwyth i ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael effaith uniongyrchol ar y trigolion lleol a'r gymuned yn ehangach. Uchelgais hirdymor y Bwrdd Partneriaeth Ardal a Chyngor Sir Ceredigion yw cael safle parhaol, ond byddai hynny'n dibynnu ar sicrhau cyllid parhaus, dod o hyd i eiddo addas a'ch cymeradwyaeth chi.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymdrin a gweinyddu'r grant hwn yn llwyddiannus o'r blaen, gan weithredu fel y bancer lleol.

Argymhelliad:

Bod y Cabinet yn cymeradwyo bod yr Awdurdod Lleol yn derbyn rôl y Bancer Lleol mewn perthynas ag ymdrin â'r Cyllid Cyfalaf sy'n ymwneud â'r safle yn 25 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, ac yn derbyn y grant, os rhoddir ef.

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Nac oes – ddim yn berthnasol

Os nad oes, esboniwch pam

***Crynodeb:** Nid yw'r penderfyniad hwn yn gofyn am ddatblygu gwasanaeth newydd, polisi newydd neu leihau neu gau gwasanaeth, yn hytrach mae'n cefnogi gwasanaeth a ddarperir eisoes.*

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Hirdymor:

Cydweithio:

Y Bwrdd Partneriaeth Ardal, Barod a Chyngor Sir Ceredigion Trydydd Sector

Cynnwys:

Atal:

Gwasanaethau ataliol Camddefnyddio Sylweddau

Integreiddio:

Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol a chydweithio â maes lechyd a'r Trydydd Sector.

Argymhellion:

Bod y Cabinet yn cymeradwyo bod yr Awdurdod Lleol yn derbyn rôl y Bancer Lleol mewn perthynas ag ymdrin â'r Cyllid Cyfalaf sy'n ymwneud â'r safle yn 25 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, ac yn derbyn y grant, os rhoddir ef.

Rheswm dros y penderfyniad:

I gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn Aberystwyth.

Trosolwg a Chraffu:

Mae'r mater hwn yn ymwneud â phroses ac nid yw'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod Lleol o gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau.

Fframwaith Polisi:

Gwneir y gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau gan Fwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda ar y cyd â'r Darparwyr Gwasanaethau, ac nid yw a wnelo'n uniongyrchol â'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, gallai'r Amcan Strategol canlynol fod yn berthnasol:

- Bydd Ceredigion yn darparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at amgylchedd iach, bywydau iachach ac yn diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed yn y sir.

Blaenoriaethau Corfforaethol:

Blaenoriaeth 3: Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

Blaenoriaeth 4: Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Tudalen 78

Goblygiadau Ariannol a Chaffael:	Mae'r mater hwn yn ymwneud yn unig ag ymdrin â chyllid grant Llywodraeth Cymru, a bydd yn sicrhau diogelwch ariannol pellach i'n Hawdurdod wrth iddo gyflawni rôl y Bancer Lleol mewn perthynas â Chyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Hefyd bydd yn ceisio lleihau unrhyw risgiau neu rwymedigaethau cysylltiedig.
Goblygiadau Cyfreithiol:	O ran Awdurdod Lleol Ceredigion yn cyflawni rôl y Bancer Lleol ar gyfer Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn Aberystwyth, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Partneriaeth Ardal fod y mater wedi'i ystyried gan Grŵp Arweiniol Ceredigion ac y byddai angen penderfyniad gan y Cabinet ynghylch cymeradwyo.
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim
Risg(iau):	Risg i'r gwaith o ddarparu Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn Aberystwyth.
Pwerau Statudol:	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
Papurau Cefndirol:	Dim
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Sian Howys - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal
Swyddog Adrodd:	John Callow - Rheolwr Corfforaethol - Camddefnyddio Sylweddau, Porth Cynnal
Dyddiad:	10/08/2021

CYNGOR SIR CEREDIGION

Aroddiad i:	Cabinet
Dyddiad:	07/09/2021
Teitl:	Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb
Pwrpas yr Adroddiad:	Cael cymeradwyaeth ar gyfer Cod Ymarfer newydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Tai a Chyswllt Cwsmeriaid - Cynghorydd Dafydd Edwards

Mae Cod Ymarfer Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb ('Cod Ymarfer') yn egluro'r polisi a'r safon ar gyfer cynnal archwiliadau ar y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig. Mae'n ffurfio rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd cyffredinol a'r Atodiad C sydd ynddo – 'Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd' ac fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio gan staff sy'n cynnal archwiliadau ar briffyrdd. Mae'n nodi pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau a hefyd lefelau ymyrraeth ar gyfer y rhan fwyaf o amgylchiadau (er y bydd disgwyl i staff archwilio bob amser ddefnyddio'u barn a'u crebwyll). Prif nod y Cod yw sicrhau bod archwiliadau, diffygion a manylion atgyweirio a awgrymir yn cael eu hasesu a'u cofnodi'n gywir, yn ogystal â'r cofnodi dilynol ar yr ymateb a'r atgyweiriadau gwirioneddol a wnaed.

Yn 2016, cyhoeddodd yr UK Roads Liaison Group *God Ymarfer Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda*, a hwn yn cymryd lle *Cod Ymarfer Priffyrdd wedi'u Rheoli'n Dda ar gyfer Rheoli Cynnal a Chadw Priffyrdd* dyddiedig Gorffennaf 2005. Er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r cod newydd, bu'n rhaid adolygu a diweddarau Cod Ymarfer Cyngor Sir Ceredigion. Egwyddor sylfaenol y cod yw y bydd Awdurdodau Priffyrdd yn mabwysiadu dull seiliedig ar risg o reoli asedau yn unol ag anghenion, blaenoriaethau a fforddiadwyedd lleol.

Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) wedi datblygu methodoleg i roi dull newydd cyson ledled y wlad i reoli priffyrdd lleol yn unol â'r cod newydd, a mabwysiadwyd y fethodoleg honno ar gyfer yr adolygiad.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn ei ddyletswydd i gynnal ased y briffordd. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn lefel yr adnoddau sydd ar gael i Awdurdodau Priffyrdd yn golygu bod y ffocws ar ymateb i ddiffygion/namau diogelwch wedi atal neilltuo adnoddau i weithgareddau cynnal a chadw a fyddai'n lleihau'r diffygion hyn. Mae'r anallu i raglennu gwaith yn arwain at aneffeithlonrwydd

Tudalen 80

ac mae perygl y byddai'r anallu cynyddol i reoli atgyweiriadau yn arwain at ddirywiad yng nghyflwr y rhwydwaith.

Mae'r cod newydd yn mynd i'r afael â hyn trwy dargedu'r meysydd sydd â'r risg uchaf. Mae'n gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar ddau brif faes: yn gyntaf amllder cynnal archwiliadau, ac yn ail wrth bennu trothwy ymyrraeth priodol. Y canlyniad fydd y gallu i ailbennu adnoddau i waith cynnal a chadw yn hytrach nag atgyweirio brys.

Datblygodd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) ei fethodoleg mewn perthynas â'r Cod Ymarfer newydd mewn ymgynghoriad â Chwmnïau Yswiriant ac Awdurdodau Priffyrdd ledled Cymru gyda'r bwriad o greu dull unedig a chyson wrth ddehongli a gweithredu.

Mae holl Awdurdodau Cymru wedi mabwysiadu'r cod.

Oes Aseiad Effaith Integredig Oes wedi ei gwblhau? Os nac oes, esboniwch pam.

Crynodeb:
Hirdymor:

Mae'r Cod Ymarfer newydd yn darparu dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau ar Ddiogelwch Priffyrdd ac yn cynnig cyfle i wneud y gorau o adnoddau trwy flaenoriaethu a chynllunio gwaith cynnal a chadw.

Cydweithio:

Bydd y Cod Ymarfer newydd yn gwella cyflwr y briffordd fabwysiedig yng Ngheredigion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ei phobl, ei heconomi, ei hamgylchedd a'i diwylliant.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Cynnwys:

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, cwmnïau yswiriant ac Awdurdodau Priffyrdd er mwyn gweithredu'r Cod newydd yn llwyddiannus

Atal:

Anogir rhanddeiliaid i barhau i fod yn rhan trwy gyfarfodydd ac adolygu rheolaidd, a'r rheiny yn cael eu llywio gan yr adborth a dderbynnir.

Integreiddio:

Mae'r fethodoleg y tu ôl i'r cod yn defnyddio data sy'n ymwneud â'r risg o ddifrod i eiddo neu niwed i bobl, ac yn argymhell ffordd o wneud y defnydd

Tudalen 81

gorau o adnoddau sydd ar gael er mwyn lliniaru hyn yn effeithiol.

Argymhelliad:	ARGYMHELLIR FOD Cabinet yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021
Rheswm dros y penderfyniad:	Newid ffocws ein hadnoddau, cryfhau ein gwaith cynnal a chadw, a gwella ein gallu i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol statudol fel yr amlinellir yn Adran 41 Deddf Priffyrdd 1980 a darparu amddiffyniad yn rhinwedd Adran 58 Deddf Priffyrdd 1980 trwy ddull unedig Cymru gyfan Cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol, sef <i>Cod Ymarfer Seilwaith Priffyrdd a Reolir yn Dda 2016</i>
Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Ffyniannus
Fframwaith Polisi:	Amh
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Hybu'r Economi Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Mae'n rhoi gwell amddiffyniad i'r Cyngor o ran Adran 58 Deddf Priffyrdd 1980
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Bydd ffocws yr adnodd ar waith cynnal a chadw cylchol/ataliol cyffredin wedi'i gynllunio mwy cost-effeithiol yn gwella cyflwr ased y briffordd.
Risg(iau):	Bydd y cod newydd yn gwella ein gwaith cynnal a chadw a'n hamddiffyniad o dan adran 58 y Ddeddf Priffyrdd trwy ddull gweithredu unedig Cymru gyfan.
Pwerau Statudol:	Deddf Priffyrdd 1980
Papurau Cefndirol:	Adroddiad Craffu Cymunedau Ffyniannus <ul style="list-style-type: none">• 15 Gorffennaf 2021
Atodiadau:	Atodiad 1 - Papur Crynodeb: Cod Ymarfer 2021 Atodiad 2 - Cod Ymarfer ar gyfer Arolygiadau Diogelwch ar y Priffyrdd ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

Tudalen 82

Atodiad 3 - Adolygiad Risg Ased y Briffordd
Atodiad 4 - Rhesymeg Dull Gweithredu Seiliedig ar Risg
CSSW 2019
Atodiad 5 - Cod Ymarfer Aseiad Effaith Integredig
Arolygiadau Diogelwch ar y Priffyrdd

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Rhodri Llwyd

Swyddog Adrodd

Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol

Dyddiad:

17/08/21

2021-06-09



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Crynodeb: Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021

Trosolwg

Cyhoeddwyd fersiwn derfynol Cod Ymarfer Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda ar 28 Hydref 2016. Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r cod hwn. Pe *na* bai'r Cyngor yn cydymffurfio â'r cod yna byddai'r risg ariannol yn uwch o ran atebolrwydd a hawliadau, premiymau yswiriant neu gyfyngiadau ar yr yswiriant. Yn ogystal â risg ariannol, byddai perygl i enw da Cyngor Sir Ceredigion o ran argraff a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau os nad yw'n cydymffurfio â'r cod. Bydd cymeradwyo'r Cod Ymarfer newydd ar Archwiliadau Diogelwch a'r Ymateb yn rhoi amddiffyniad rhesymol i'r Cyngor yn gyson â dull gweithredu Cymru gyfan.

Argymhella'r cod y dylai pob Awdurdod Priffyrdd ystyried syniadau a dulliau newydd o weithio ac arloesi er mwyn ysgogi mwy o effeithlonrwydd. Egwyddor sylfaenol y cod yw y bydd Awdurdodau Priffyrdd yn mabwysiadu **dull seiliedig ar risg** o reoli asedau yn unol ag anghenion, blaenoriaethau a fforddiadwyedd lleol.



well-managed_high
way_infrastructure_c

Mae'r Cod newydd yn cymryd lle'r Cod Ymarfer Priffyrdd wedi'u Rheoli'n Dda ar gyfer Rheolwyr Cynnal a Chadw Priffyrdd, dyddiedig Gorffennaf 2005.

Mae cod Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) yn cysoni dull y cod newydd ledled Cymru, a chwmnïau yswiriant ac Awdurdodau Priffyrdd ledled Cymru wedi cyfrannu ato. Mae'n mynd i'r afael â'r gostyngiad yn lefel yr adnoddau sydd ar gael i Awdurdodau trwy dargedu'r meysydd uchaf eu risg. Mae'n gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar ddau brif faes: amllder yr archwiliadau, a phennu trothwy priodol ar gyfer ymyrraeth.

AMLDER YR ARCHWILIADAU

Y DULL SEILIEDIG-AR-RISG

Tudalen 84

2021-06-09

Cyn hyn, categori'r ffordd a bennai pa mor aml y cynhelid archwiliadau, a maint y diffyg/nam oedd yn pennu'r ymateb oedd ei angen.

Yn hanesyddol mae amllder archwilio awdurdodau wedi bod ar sail dosbarth y ffordd h.y. ffordd A, ffordd B, ffordd C a diddosbarth. Nid oes wnelo hyn fawr ddim â pha mor aml y defnyddir y ffordd na'i phwysigrwydd yn y rhwydwaith lleol. Fodd bynnag, mae hierarchaeth sy'n seiliedig ar risg yn bennaf seiliedig ar y defnydd ar ffyrdd, a hynny'n adlewyrchu'r ffaith os oes perygl neu nodwedd beryglus yn bodoli ar ased **yna mae'r risg yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y defnyddwyr sy'n agored i'r risg honno.**

Derbynnir yn gyffredinol gan y llysoedd ac yswirwyr yr ystyrir ei bod yn rhesymol ac yn amddiffynadwy bod nam diogelwch a gofnodir ar ffordd "brysur", a archwilir yn fisol (bob 30 diwrnod), yn cael ei gwneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol.

At ddibenion y cod, ystyrir bod rhwng 20,000 a 30,000 o gerbydau'r dydd yn defnyddio ffordd "brysur".

Os lluosir y rhif hwn â 30 (sef y diwrnodau rhwng yr archwiliad) + 1 er mwyn cywiro'r nam, mae hyn yn rhoi 930,000 o ddefnyddwyr priffyrdd sy'n dod i gysylltiad â'r perygl / risg.

Yna caiff hwn ei drawsnewid yn fynegai cysylltiad â'r risg (*risk exposure index*/REI) o 930.

Yna mae'n dilyn y gallai ffordd sydd â 10,000 o gerbydau'r dydd (sef traean yr uchod) fod ag amllder archwilio o dair gwaith y swm hwnnw, 90 diwrnod + 1 iddi gael yr un mynegai risg, h.y. REI o 930. Yna gellir cymhwyso amrywiad lleol ar gyfer llwybrau strategol, amrywiadau gweithredol, tymhorol a chynnal a chadw arferol.

Er enghraifft, mae llawer o'n ffyrdd yng Ngheredigion yn ffyrdd isel eu defnydd. Efallai y bydd gan y rhain lai na 1000 o symudiadau cerbydau y dydd a fyddai, er mwyn rhoi REI cyfatebol, yn ddamcaniaethol yn rhoi amllder archwilio o dros 2 flynedd. Deallir y byddai hyn yn annerbyniol i'r Awdurdod ac y byddai'n cael ei addasu am reswm **cynnal a chadw arferol** i 365, h.y. 12 mis. Mae Cod Ymarfer cyfredol Ceredigion yn nodi'r rhain yn Ffyrdd Mynediad Lleol Categori 4B ac ar hyn o bryd hefyd cofnodir yr amllder archwilio yn 12 mis. Caiff llwybrau strategol Ceredigion eu rhestru mewn dogfen o 2004, 'Llwybrau Strategol yng Ngheredigion', sydd wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae amllder archwilio yn cael eu pennu yn ôl hierarchaeth ffyrdd (dosbarth) gydag eithriadau.

Tudalen 85

2021-06-09

- **bob 4 wythnos** Llwybrau Strategol, Ffordd Ddosbarthu Bwysig.
- **bob 12 wythnos** Ffordd Ddosbarthu Eilaidd,
- **bob 26 wythnos** Ffyrdd Cysylltu Lleol
- **bob 52 wythnos** Ffyrdd Mynediad Lleol (archwilir ar hyn o bryd bob 26 wythnos)
- **bob 104 wythnos** Ffyrdd Gwyrdd neu gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT)

Mae'r cod newydd yn argymhell bod amlder yr archwilio yn cael ei bennu'n bennaf yn ôl defnydd.

- **CHSR cyfrif traffig 20,000- 30,000** bob 4 wythnos
- **CH1 cyfrif traffig 10,000- 20,000** bob 4 wythnos
- **CH2 cyfrif traffig 5,000- 10,000** bob 12 wythnos
- **CH3 cyfrif traffig 1000 – 5000** bob 26 wythnos
- **CH4 cyfrif traffig 200 – 1000** bob 52 wythnos
- **CH5 cyfrif traffig <200** Ymatebol h.y., Cais am wasanaeth yn unig.

Ar hyn o bryd prin yw data cyfrif traffig Ceredigion ond, yn unol ag Awdurdodau eraill ac fel y'u cymeradwywyd gan CSSW, llunnir amcangyfrifon ar gyfer data niferoedd cerbydau a nifer y cerddwyr trwy allosod (*extrapolation*) a defnyddio gwybodaeth leol. Mae'n hanfodol ein bod yn dechrau rhaglen o gasglu data cynhwysfawr i gefnogi'r cod a llywio adolygiadau risg rheolaidd. Mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i gyflawni'r gwaith hwn trwy offer monitro electronig.

Defnyddir yr egwyddor dull-seiliedig-ar-risg hefyd wrth sefydlu trefniadau archwilio. Er mwyn cael sylfaen resymol ar gyfer sefydlu system archwilio, mabwysiadwyd y cysyniad o gysylltiad â risg (*risk exposure*). Mae cysylltiad â risg yn mesur faint o gysylltiad sydd gan ddefnyddwyr â pherygl a defnyddir hwn i asesu amlder sylfaenol a chychwynnol yr asesiadau, ac yna gwneir addasiadau iddo os yw'n Llwybr Strategol, os oes nifer o gerbydau nwyddau trwm, os yw'n rhan o lwybr dargyfeirio ac os yw'n croesi ffin y sir yn ogystal â'r cyflwr presennol ac anghenion cynnal a chadw arferol.

Tudalen 86

2021-06-09

Enghreiffiau Asesu

A4120 o HEOL Y BONT hyd at YNYS SOUTHGATE

Cyfrif traffig neu amcangyfrif*	Traffig cerbydau nwyddau trwm	Llwybr Strategol* neu Ddargyfeiriol	Croesi Ffin Sirol	Cyflwr	Amllder yn y Cod Ymarfer presennol	Amllder a gynigir
16336	Nac oes	Ydi* Ydi	Nac ydi	Da	4 Wythnos	1 Mis

B4577A o CROSS INN hyd at FYNEDFA FFORDD Y COMISIWN COEDWIGAETH

1145	Nac oes	Ydi*	Nac ydi	Da	12 Wythnos	3 Mis
------	---------	------	---------	----	------------	-------

A486 o FFOSTRASOL hyd at FWLCHYGROES

1000-5000*	Nac oes	Ydi*	Nac ydi	Da	4 Wythnos	1 Mis
------------	---------	------	---------	----	-----------	-------

A484 o'r HOLT hyd at EIDDO DAN YR ENW KYNANCE

4460	Nac oes	Ydi*	Nac ydi	Da	4 Wythnos	1 Mis
------	---------	------	---------	----	-----------	-------

C1019 o BOW STREET hyd at GYFFORDD C1010

1000-5000*	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Da	12 Wythnos	6 Mis
------------	---------	---------	---------	----	------------	-------

C1010 o FFYNNON CARADOG hyd at C1019

1705	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Da	12 Wythnos	6 Mis
------	---------	---------	---------	----	------------	-------

C1008 o LANGEITHO hyd at FFORDD BREIFAT I GEFNGWIDDIL

1000-5000*	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Da	12 Wythnos	6 Mis
------------	---------	---------	---------	----	------------	-------

C1009 o ABERPORTH hyd at BARC CARAFANAU LLETY

1000-5000*	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Da	12 Wythnos	6 Mis
------------	---------	---------	---------	----	------------	-------

U1365 o GYFFORDD B4343 hyd at GWARCASTELL

54	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Gweddol	52 Wythnos	12Mis**
----	---------	---------	---------	---------	------------	---------

**Ar gyfer rhesymau anghenion cynnal a chadw sylfaenol

U1461 o GYFFORDD B4576 hyd at BWLCH

200-1000*	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Da	52 Wythnos	12Mis
-----------	---------	---------	---------	----	------------	-------

U1616 o BRO DERI, BETTWS BLEDRWS hyd at yr C1071

200-1000*	Nac oes	Nac ydi	Nac ydi	Da	52 Wythnos	12Mis
-----------	---------	---------	---------	----	------------	-------

Canlyniadau'r cod newydd

1. Mae'r niferoedd traffig isel yng Ngheredigion yn dangos y gellid lleihau amllder yr archwiliadau ar oddeutu 30%-40% o'n rhwydwaith. Yn ymarferol, mae'n debygol na fydd yn fwy na 30%.
2. Er y byddai amllder yr archwiliadau yn llai, ni fyddai cyfanswm y namau a nodwyd yn gostwng.
3. Ni fyddai nifer y namau Difrifol yn dangos unrhyw newid.
(Safon ofynnol CSSW ar gyfer nam brys yw ei wneud yn ddiogel o fewn 2 awr)
4. Mae nifer y namau Diogelwch yn debygol o ostwng yn y tymor byr.
(Safon ofynnol CSSW ar gyfer nam Diogelwch yw ei wneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol (CHSR, CH1, CH2) ac o fewn 5 diwrnod gwaith (CH3, CH4, CH5))**
5. Mae nifer y namau Cynnal a Chadw yn debygol o godi.
(Safon ofynnol CSSW ar gyfer nam cynnal a chadw yw 1 mis (CHSR, CH1, CH2), 3 mis (CH3, CH4, CH5))**
6. Mae atgyweirio wedi'i raglennu yn debygol o aros yr un fath.
(Safon ofynnol CSSW ar gyfer atgyweirio wedi'i raglennu yw yn unol â'r rhaglen waith leol)

Elfennau Cadarnhaol

Defnyddio adnoddau ar sail risg. Gellid defnyddio'r adnodd archwilio i gryfhau ymateb y gwasanaeth i faterion eraill megis:

1. Archwilio asedau eraill priffyrdd ac/neu bryderon a gweithgareddau gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - a. Swyddogaethau gwaith stryd e.e. rheoli trwyddedau sgipiau/sgaffaldiau/ffens balis, ymateb i gŵynion am ddiffygion
 - b. Archwiliadau cyffredinol ar bontydd e.e. archwilio'r canllawiau/parapet, waliau ystlys a deciau
 - c. Ffensys diogelwch e.e. â thensiwn, heb densiwn, ffensys trawst (box-beam)
2. Delio â materion gorfodi
 - a. Coed sy'n gordyfu e.e. gwneud ymweliadau safle, rhoi rhybuddion, gwaith dilynol
 - b. Pethau yn rhwystro/amharu ar briffyrdd e.e. gwneud ymweliadau safle, rhoi rhybuddion, gwaith dilynol
3. Darparu dull mwy cyfannol ar gyfer archwilio a chynnal a chadw trwy ategu'r gwaith a wneir gan yr uwch-arolygwyr a vice versa gan felly wella -

2021-06-09

4. Effeithiolrwydd gwaith ymatebol wedi'i gynllunio a ddylai atal diffygion cynnal a chadw rhag dod yn ddiffygion/problemau diogelwch.
5. Galluogi ymateb cyson i geisiadau trydydd parti am wasanaeth, hawliadau a chwynion.
6. Casglu data ar fathau o asedau e.e. manylion arwyddion, systemau draenio

Elfennau Negyddol Posibl

1. Argraff bosib gan y cyhoedd o ostyngiad yn yr ymateb cyfredol i ddiffygion.
2. Posibilrwydd cynnydd yn y llwyth gwaith o ganlyniad i fwy o geisiadau gan gwsmeriaid.
3. Posibilrwydd am fwy o geisiadau gan hawl wyr trydydd parti.

Cyfleoedd

1. Adleoli adnoddau fel yr amlinellwyd uchod
2. Elwa o ymateb unedig Cymru gyfan i hawliadau trydydd parti.
3. Crynhoi triniaethau yn waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio sy'n fwy cost-
effeithiol

Mae'r cod yn seiliedig ar gyfrif traffig cerbydau a cherddwyr. Bydd angen darparu adnoddau ar gyfer y casglu data hwn yn barhaus.

COFNODI DIFFYGIION

Mae cod ymarfer presennol y Cyngor eisoes yn argymhell asesu risg diffygion trwy ddefnyddio matrices risg (gweler isod). Mae'r dull yn gysyniadol syml ac mae angen nodi effaith bosibl digwyddiad a gwerthuso pa mor debygol yw hi y bydd y digwyddiad hwnnw'n digwydd. Yr hyn sy'n anodd amdano yw nad yw'r tabl yn nodi i ba ddigwyddiad y mae'n cyfeirio ato.





Os yw'n cyfeirio at risg marwolaeth, yna mae'r effaith yn uchel iawn ond gallai'r tebygolrwydd fod yn isel. Os yw'n cyfeirio at y risg i fod yn ddifrod eiddo trydydd parti, gallai'r effaith fod yn isel ond gallai'r tebygolrwydd fod yn sylweddol uwch. Mae'r ddau ddigwyddiad hyn, ac eraill, yn bosibl o ganlyniad i nam ar y briffordd. Mae'r dull presennol felly'n ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr priffyrdd ddadansoddi ystod o ddigwyddiadau posibl ar yr un pryd yn ogystal ag amryw o debygolrwyddau er mwyn dod i ymateb priodol i ddiffyg/nam. Mae hon yn dasg anodd gan nad oes data perthnasol ar gael. Heb ddata ar effeithiau a thebygolrwydd daw hyn yn ymarferiad i farn yr unigolyn.

Tudalen 89

2021-06-09

Tebygolrwydd ac effaith	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel
Dibwys	1	2	3	4
Isel	2	4	6	8
Yn weladwy	3	6	9	12
Uchel	4	8	12	16

Amseroedd Ymateb

- Nam Categori 1  amser ymateb – ei wneud yn ddiogel neu ei atgyweirio o fewn 24 awr
- Nam Categori 2H  amser ymateb - 5 diwrnod gwaith
- Nam Categori 2M  amser ymateb – 20 diwrnod gwaith
- Nam Categori 2L -  i'w atgyfeirio i gael ei asesu neu ei raglennu

Ymatebion a gynigir

Categoriâu namau	Disgrifiad	Amser ymateb
Nam Difrifol Categori 1	<p>Sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i ofyn am weithredu ar unwaith, e.e. seler wedi cwmpo, gorchudd cyfleustodau ar goll, coeden wedi cwmpo, agoriad heb gaead/yn agored,</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen ymateb ar unwaith i wneud y safle'n ddiogel 	2 awr

Tudalen 90

2021-06-09

<p>Nam Diogelwch Categori 1.1 Categori 1.5</p>	<p>Diffygion/namau sy'n peri risg anaf yn y dyfodol agos i ddefnyddwyr y ffordd,</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen ymateb cyn gynted â phosibl i gael gwared ar risg bosibl o anaf i ddefnyddwyr 	<p>Erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol (CHSR, CH1, CH2)</p> <p>O fewn 5 diwrnod gwaith (CH3, CH4)</p>
<p>Nam Cynnal a Chadw Categori 2.1 Categori 2.3</p>	<p>Diffygion sydd angen eu trin i'w hatal rhag dirywio i fod yn nam diogelwch cyn yr archwiliad nesaf a drefnwyd,</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen ymateb i'w hatal rhag dod yn nam diogelwch 	<p>1 mis (CHSR, CH1, CH2)</p> <p>3 mis (CH3, CH4)</p>
<p>Atgyweirio wedi'i raglennu Cat 3</p>	<p>Diffygion sydd angen eu trin er mwyn eu hatal rhag dirywio i'r fath raddau y byddai'n arwain at waith neu gostau ychwanegol.</p>	<p>Yn ôl y rhaglen waith leol</p>

Oherwydd gostyngiad mewn adnoddau, mae Awdurdodau Priffyrdd wedi canfod bod eu gwasanaethau adweithiol yn gorfod canolbwyntio ar ymateb i gynnydd mawr mewn diffygion/namau diogelwch, yn bennaf oherwydd bod triniaethau ac atgyweiriadau arferol yn digwydd yn hwyr ac/neu y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r cod newydd yn ceisio cryfhau'r ymateb i ddiffygion diogelwch (wrth eirioli dros gael lefel ymyrraeth uwch) wrth atal y diffygion hynny a fyddai, pe na baent yn cael eu trin, yn datblygu'n namau difrifol fel arall. Mae'n gwneud hyn trwy greu lefelau ymyrraeth sy'n newid yn unol â'r mynegai risg (REI).

Pennu Trothwy Priodol

Y prif benderfynnydd wrth gategoreiddio nam ar y ffordd nad yw'n beryglus ar yr adeg honno yw pa mor gyflym y gall ddirywio i'r cyflwr hwnnw. Dyluniwyd y drefn i sicrhau atgyweirio ataliol a fydd yn lleihau nifer y namau a allai ddod yn beryglus o ran anaf i bobl neu ddifrod i eiddo.

Bydd gan ffyrdd sydd wedi'u hadeiladu bob amser haen dreulio gynnil, fel rheol yn ddyfnder o hyd at 45mm. Mae'n gyffredin i atgyweirio ddirygwydd oherwydd ymddangosiad twll yn y ffordd (*pothole*) yn yr haen dreulio hon. Pan fo'r haen oddi tano yn gyfan, mae'r nam yn siŵr o aros yn gymharol sefydlog yn y tymor byr h.y. mae dirywio i fod yn nam llawer mwy o faint yn llai tebygol nag yn achos nam sydd

Tudalen 91

2021-06-09

eisoes wedi ymestyn i'r haenau isaf. Am y rheswm hwn, dewiswyd trothwy o 50mm i wahaniaethu rhwng “namau bychain” a “namau mwy o faint”. Bydd nam sy'n 50mm o ddyfnder fel arfer yn dirywio ar lefel yr haen dreulio a'r haen ddilynol oddi tani ac o'r herwydd y duedd yw i'r nam ddirywio'n gyflymach. Mae'r system a bennwyd yn seiliedig ar wahaniaethu rhwng diffygion a namau bob ochr i'r trothwy hwn.

Trefn Atgyweirio Cerbyffordd: Amseroedd Ymateb				
Hierarchaeth cerbyffordd	Nam diogelwch		Nam cynnal a chadw	
CHSR	>50mm	Erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol	>40mm	1 mis
CH1	>50mm		>40mm	
CH2	>50mm		>40mm	
CH3	>75mm	5 diwrnod	>50mm	3 mis
CH4	>75mm		>50mm	
CH5**	>75mm		>50mm	

Maint y Nam/Diffyg

Mae maint y diffyg/nam a bennir ar gyfer pob math o namau a'r hierarchaeth ffordd REI yn adlewyrchu'r ffaith bod diffygion cerbyffordd yn dirywio'n gyflymach ar ffordd sydd â thraffig trymach o ganlyniad i nifer y cerbydau sy'n rhedeg drostynt. Bydd nam o ddyfnder 50mm ar CH2 ac uwch yn destun traffig cyson gan fod yr holl ffordd hyn yn cludo >5,000 o gerbydau'r dydd. Felly gallai twll yn y ffordd ddirywio'n gyflym i fod yn llawer mwy o faint ac yn dwll/nam mwy peryglus os na chaiff ei atgyweirio'n brydlon. Am y rheswm hwn, mae safon wahaniaethol o ran maint nam diogelwch wedi'i fabwysiadu ar gyfer y safon ofynnol a ddangosir yn y tabl uchod.

Amseroedd Ymateb

Mae'r amseroedd ymateb a gynigir hefyd yn seiliedig ar ystyried lefelau REI gwahanol. Mae'r tabl isod yn dangos sut y cyfrifwyd y risg a'i ddefnyddio i ddangos pa amseroedd ymateb sy'n ofynnol i sicrhau lefel REI gyson o ran y cysylltiad â risg.

Nam Diogelwch					
Hierarchaeth cerbyffordd	AADT	Lefel AADT i'w ddefnyddio yn y cyfrifiad	Nifer y cerbydau sy'n dod i gysylltiad â'r nam cyn ei atgyweirio	Amser ymateb (diwrnodau) sy'n ofynnol i normaleiddio'r cysylltiad	Safon ofynnol a gynigir
CHSR	30,000	30,000	30,000	1	Yr un diwrnod
CH1	10,000-20,000	20,000	30,000	2	Diwedd y diwrnod gwaith canlynol
CH2	5,000-10,000	10,000	30,000	3	Diwedd y diwrnod gwaith canlynol

Tudalen 92

2021-06-09

CH3	1,000-5,000	5,000	30,000	6	5 diwrnod gwaith
CH4	200-1000	1000	30,000	30	5 diwrnod gwaith
CH5**	<200	200	30,000	150	5 diwrnod gwaith

Mae'r Cod Newydd yn awgrymu'r ymateb canlynol ar gyfer diffygion pob lefel:

Namau Difrifol – Cat 1.0 (Ymateb: 2 awr)

Mae'r rhain yn ddiffygion sy'n peri risg o anaf yn syth neu yn y dyfodol agos i ddefnyddwyr ffordd ac fel arfer yn cynnwys eitemau megis seler wedi cwmpo, gorchudd cyfleustodau ar goll, coeden wedi cwmpo, agoriad heb gaead/yn agored. Dylid gwneud diffygion difrifol yn ddiogel ar adeg yr archwiliad os yw'n ymarferol bosibl neu dylai'r arolygydd aros yno hyd nes y gellir gwneud y nam yn ddiogel. Gall ei wneud yn ddiogel fod yn gyfystyr ag arddangos rhybuddion, gosod arwyddion a ddiogelu'r cyhoedd rhag y nam neu i'r arolygydd barcio eu cerbyd dros y diffyg hyd nes y gellir ei wneud yn ddiogel.

Mae'r amser ymateb i nam difrifol yn cyfeirio at yr amser i fynychu'r safle, ei wneud yn ddiogel neu ei atgyweirio. Bydd i'w gywiro cyn gynted â phosibl wedyn.

Namau diogelwch Cat 1.1 a 1.5 (1-5 diwrnod gwaith)

Nam sydd angen sylw cyflym oherwydd ei fod yn berygl a all ddigwydd yn fuan.

Bydd namau diogelwch yn gofyn am ymateb cyn gynted â phosibl i gael gwared ar risg bosibl o anaf i ddefnyddwyr, ac fel arfer byddant yn cynnwys eitemau fel tyllau yn y ffordd o faint penodol, peryglon baglu, cyrbau wedi dod yn rhydd ac ati. Os yw'n ymarferol bosibl dylid gwneud namau diogelwch yn ddiogel ar adeg yr archwiliad. Gall hyn olygu arddangos rhybuddion, gosod conau neu godi ffens i amddiffyn y cyhoedd rhag y diffyg/nam. Os nad yw'n bosibl cywiro neu ddiogelu'r nam ar adeg yr archwiliad, dylid gwneud atgyweiriadau o natur barhaol neu dros dro o fewn yr amser ymateb a nodwyd.

*[Safon ofynnol CSSW ar gyfer gwneud nam diogelwch yn ddiogel yw erbyn diwedd y Diwrnod Gwaith Canlynol (Categori 1.1 ar CHSR, CH1, CH2) ac o fewn 5 diwrnod gwaith (Categori 1.5 ar CH3, CH4, CH5**)]*

Mae safon ofynnol CSSW yn rhoi data dimensiynau y gellir eu defnyddio fel canllaw wrth adnabod namau diogelwch. *(Mae gan yr arolygydd sy'n cofnodi bob amser y disgrisiwn/gallu i newid unrhyw ddiffyg i flaenoriaeth uwch/is os yw ei hyfforddiant neu brofiad yn rhoi sail i hynny.)*

Namau cynnal a chadw - Cat 2.1 a 2.3 (1 i 3 mis)

Tudalen 93

2021-06-09

Diffyg/nam nad yw'n nam diogelwch ond y mae angen eu hatgyweirio ar adeg briodol i'w diogelu rhag dirywiad pellach.

Nid ydynt yn peri perygl yn y dyfodol agos i ddefnyddwyr. Namau a diffygion cynnal yw rhai sydd angen cael eu trin er mwyn eu hatal rhag dirywio i fod yn ddiffyg/nam diogelwch cyn yr archwiliad nesaf a drefnwyd

*Safon ofynnol CSSW ar gyfer nam cynnal a chadw yw 1 mis (Categori 2.1. ar CHSR, CH1, CH2), 3 mis (Categori 2.3 ar CH3, CH4, CH5**)*

Atgyweirio wedi'i raglennu Cat 3 (i'w rhestru yn y Rhaglen Waith)

Mae hwn yn nam nad yw'n nam diogelwch nac yn nam cynnal a chadw ond sydd angen ei atgyweirio ar adeg briodol i warchod rhag dirywiad pellach.

Nid ydynt yn peri perygl i ddefnyddwyr yn y dyfodol agos. Mae atgyweiriadau wedi'u rhaglennu yn ddiffygion sydd angen eu trin ar adeg ymyrraeth briodol, er mwyn eu hatal rhag dirywio i'r fath raddau nes bod angen gwaith neu gostau ychwanegol.

(Safon ofynnol CSSW ar gyfer atgyweirio wedi'i raglennu yw yn unol â'r rhaglen waith leol)

**Ystyrir bod lefelau ymyrraeth diffygion ar ffyrdd CH5 yn lefel ymchwilio iddynt. Nid yw lefel ymchwilio yn sbarduno ymateb yn awtomatig. Bydd yn ddyletswydd ar yr arolygydd i neilltuo ymateb priodol i bob nam ar sail ei fath, maint, lleoliad a lefel defnydd y ffordd. Mae ffyrdd CH5 yn ffyrdd isel eu defnydd felly bydd diffygion/namau yn aml yn risg isel i ddefnyddwyr a gellir ymateb iddynt yn unol â hynny e.e. efallai na fydd bob amser yn briodol cofnodi twll 75mm ar gilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT), ffordd â thraffig isel, fel nam categori 1. Yn yr achos hwn bydd yr Arolygydd yn ymchwilio ac yn ystyried pa gamau i'w cymryd.

Elfennau Cadarnhaol

1. Bydd y timau cynnal a chadw ymatebol yn fwy abl i reoli'r ymateb i ddiffygion/namau o fewn yr amserlenni gofynnol.
2. Bydd modd lleihau nifer yr atgyweiriadau dros dro.
3. Mae'n ddull Cymru gyfan o amddiffyn hawliadau trydydd parti.

Elfennau Negyddol Posibl

1. Dim ond trwy allu rheoli'r Namau Cynnal a Chadw yn llwyddiannus y bydd modd cyflawni buddion y cod. Os na chyflawnir hyn, mae'r rhwydwaith yn

Tudalen 94

2021-06-09

debygol o gael effaith negyddol oherwydd yr ymlacio yn lefelau ymyrraeth Namau Diogelwch.

Cyfleoedd

1. Rhaglennu gwell ar lif gwaith a dylai hynny fod â buddion cost ac adnoddau.
2. Canolbwyntio ar atal nam cynnal a chadw rhag dod yn nam diogelwch, ac felly'r angen i ymateb yn syth yn barhaus.
3. Cynnal a chynllunio rhaglenni gwaith cynnal a chadw cylchol / ataliol megis glanhau gyli, cwteri, ffosydd, clytio ac ati.

Beth yw'r ysgogwyr?

1. Cyflawni'n llwyddiannus ein dyletswyddau Adran 41 fel y nodir yn Neddf Priffyrdd 1980.
2. Cydymffurfio/cadw at ganllawiau'r Deyrnas Unedig (UKLRG), sef Cod Ymarfer Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda 2016 (dull sy'n seiliedig ar risg)
3. Cydymffurfio/cadw at ddull Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) sy'n seiliedig ar risg wrth reoli priffyrdd.
4. Newidiadau yswiriant (costau premiwm a'r Risg ganfyddedig)
5. Casglu tystiolaeth cyn achos Llys (tystiolaeth bod risg wedi'i gwerthuso a'i blaenoriaethu)
6. Defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol a dynol
7. Anghenraid i'r Cyngor ddangos ei fod wedi gweithredu'n rhesymol gan felly ddarparu amddiffyniad Adran 58 iddo'i hun.


Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn perfformio'n dda yn ei ddyletswydd i gynnal a chadw'r priffyrdd a bwriad y cod newydd yw gwella ein gwaith cynnal a chadw a'n hamddiffyniad o dan adran 58 y Ddeddf Priffyrdd trwy ddull cyson ledled Cymru gyfan.

Argymhelliad

Cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021

Cod Ymarfer

Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cod Ymarfer

Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

2021



Rhagair

Rhan bwysicaf cynnal a chadw priffyrdd yw sefydlu system effeithiol i archwilio, asesu a chofnodi. Diffinnir nodweddion y system hon, a fydd yn cynnwys pa mor aml y cynhelir archwiliadau, eitemau i'w cofnodi a natur yr ymateb, ar ôl asesu eu risgiau cymharol.



Cynnwys

- 1 [Cyflwyniad](#)
 - Deddfwriaeth
 - Bwriad y ddogfen hon
- 2 [Statws y Cod](#)
 - Adolygu
- 3 [Amcanion](#)
- 4 [Hyfforddiant a Datblygu](#)
- 5 [Rheoli Risg](#)
- 6 [Diogelwch y Rhwydwaith – Archwiliadau Diogelwch](#)
- 7 [Archwiliadau Ad-hoc](#)
- 8 [Hierarchaeth y Priffyrdd](#)
 - Hierarchaeth Priffyrdd (Cerbyttfordd)
 - Hierarchaeth Priffyrdd (Troedfordd)
 - Hierarchaeth Priffyrdd (Llwybr beiciau)
- 9 [Y System Archwilio](#)
 - Archwiliadau Diogelwch
 - Amllder yr archwiliadau
 - Hyblygrwydd/Goddefgarwch a ganiateir
 - Diffygion/Namau
 - Maint y diffygion
 - Natur yr ymateb
- 10 [Diffygion sy'n gysylltiedig â phartïon eraill](#)
- 11 [System Reoli a Chipio Data](#)

Atodiadau

- A [Meini Prawf Diffygion – Amseroedd Ymateb](#)
- B **Asesu Risg**
- C **Rhesymeg Gefnogol**
- D [Gohirio Archwiliad Diogelwch Priffyrdd](#)

Gweler ffeil Excel ar
wahân

Gweler ffeil PDF ar
wahân



1. Cyflwyniad

Deddfwriaeth

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Priffyrdd, ddyletswydd statudol i gynnal ei briffyrdd fel yr amlinellir yn Neddf Priffyrdd 1980.

Yn benodol, mae Adran 41 yn gosod dyletswydd i gynnal a chadw priffyrdd gydag arian cyhoeddus. Nid oes unrhyw ddiffiniad yn y Ddeddf ynghylch lefel y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol er bod codau cenedlaethol wedi'u llunio i gynnig rhywfaint o arweiniad. Mae'r ddogfen "*Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda: Cod Ymarfer*" / "*Well-Managed Highway Infrastructure: A Code of Practice*" (Hydref 2016) a luniwyd gan y Roads Liaison Group, yn gwneud argymhellion ynghylch arolygon ac archwiliadau o'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig, ac eithrio pan fo cyfyngiadau neu alwadau lleol yn gofyn am atebion lleol.

Mae adran 58 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu amddiffyniad arbennig i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol:

"58 Amddiffyniad arbennig ar waith yn erbyn awdurdod priffyrdd am iawndal am beidio ag atgyweirio priffordd.

(1) Mewn achos yn erbyn awdurdod priffyrdd mewn perthynas â difrod sy'n deillio o'u methiant i gynnal priffordd sydd i'w chynnal a'i chadw gydag arian cyhoeddus, mae'n amddiffyniad (heb ymrwymiad i unrhyw amddiffyniad arall na chymhwyso'r gyfraith sy'n ymwneud ag esgeulustod cyfrannol) gallu profi bod yr awdurdod wedi cymryd y fath ofal ag yr oedd yn rhesymol ofynnol yn yr holl amgylchiadau i sicrhau nad oedd y rhan o'r briffordd y digwyddodd y weithred yn beryglus i draffig."



Bwriad y ddogfen hon

Mae'r Cod Ymarfer hwn a gymeradwywyd: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb yn egluro'r polisi a'r safon ar gyfer cynnal archwiliadau ar y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig. Fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio gan staff sy'n cynnal archwiliadau priffyrdd ac mae'n rhan o'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd cyffredinol (*Highway Maintenance Manual*). Nodir lefelau ymyrraeth ar gyfer y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond bydd disgwyl i'r staff sy'n cynnal archwiliadau bob amser ddefnyddio eu crebwyll gan na ellir ymdrin â phob digwyddiad posibl. Prif nod y cod yw sicrhau bod manylion archwilio, diffygion ac atgyweiriadau a awgrymir yn cael eu hasesu'n gywir a'u cofnodi'n fanwl, ynghyd â manylion yr union atgyweiriadau a wnaed maes o law. Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r broses hon fod yn gyfarwydd â chynnwys y ddogfen hon er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson.

Mae Gwasanaethau Priffyrdd yr Awdurdod yn cynnal archwiliadau diogelwch ar y rhwydwaith cyhoeddus yng Ngheredigion. Pwrpas hyn yw sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, bod cerbyffyrdd, troedffyrdd ac asedau dynodedig eraill a gynhelir gydag arian cyhoeddus yn ddiogel i ddefnyddwyr.

Mae gweithredu trefn ffurfiol i archwilio a chynnal a chadw'r rhwydwaith ac asedau eraill, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, yn rhoi amddiffyniad i'r Awdurdod o dan Adran 58 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn erbyn hawliadau a wneir am iawndal sy'n deillio o ddigwyddiadau ar briffordd gyhoeddus.



2. Statws y Cod

Mae'n arfer da mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd, perthnasedd a chydymffurfiaeth Cod Ymarfer yr Awdurdod. Mae'r diwygio hwn ar God 2010 wedi'i ysgogi a'i lywio gan gyhoeddiad y ddogfen ganllaw ym mis Hydref 2016 "*Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda: Cod Ymarfer*". Er nad oes unrhyw ofyniad i fabwysiadu'r canllaw hwn, pwrpas y cod yw annog arfer gorau wrth gynnal a chadw a rheoli priffyrdd.

Yng nghyhoeddiad 2016 y newid mwyaf sylweddol o'r cod blaenorol oedd argymhelliad bod awdurdodau'n mabwysiadu dull seiliedig ar risg, er na roddwyd unrhyw fanylion ar sut y dylid cyflawni hyn. Gweithiodd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) i ddatblygu ymateb sy'n gyson yn genedlaethol trwy ddylunio methodoleg a fyddai'n caniatáu i awdurdodau, o'i fabwysiadu, elwa o weithio i safon genedlaethol. Mae Gwasanaethau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion wedi defnyddio'r fethodoleg hon wrth ddatblygu cod 2021 yr Awdurdod.

Bydd y ddogfen hon yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn egwyddorion Cod 2016, sy'n caniatáu ar gyfer amrywiadau lleol. Nodir rhai egwyddorion yn ymwneud â hynny yn y ddogfen hon, gan ddelio'n benodol ag Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd.

Er bod y llysoedd yn derbyn na all priffordd gyhoeddus fyth fod mewn cyflwr perffaith bob amser, eto mae'n rhaid i'r Awdurdod Priffyrdd ddangos ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd rhesymol. Mae system gymwys i gynnal archwiliadau yn rhan hanfodol o'r gofyniad hwnnw.



Adolygu

Mae'r ddogfen hon i'w hadolygu'n rheolaidd ar lefel weithredol yn unol ag ymrwymiad y Cyngor Sir i broses o welliant parhaus. Adolygir y ddogfen hon i gofnodi newidiadau i safonau gwasanaeth neu er mwyn gweithredu unrhyw safonau a pholisïau gwasanaeth sydd newydd eu diffinio gan gynnwys data ychwanegol ar lefelau traffig ar y rhwydwaith.

O bryd i'w gilydd dylid cynnal adolygiadau risg sy'n coladu data priodol, a dylid defnyddio'r adolygiadau hyn i fireinio trefniadau hierarchaeth, archwilio ac atgyweirio.

DRAFT



3. Amcanion

Mae “*Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda: Cod Ymarfer (Hydref 2016)*” yn nodi'r mathau o archwiliadau y dylid eu cynnal ar briffyrdd i fynd i'r afael â thri amcan allweddol strategaeth cynnal a chadw priffyrdd:

- 1) Diogelwch Rhwydwaith – sicrhau cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol.
- 2) Defnyddioldeb Rhwydwaith – sicrhau ei fod ar gael, yn gadarn, yn ddibynadwy.
- 3) Cynaliadwyedd Rhwydwaith – gwneud y mwyaf o'i werth i'r gymuned.

Mae'r ddogfen hon, “*Cod Ymarfer: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb*”, yn ymdrin yn benodol ag Amcan 1, Diogelwch Rhwydwaith, ac yn diweddarar “*Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd ar Ffyrdd Sirol*” blaenorol o 2010.

Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi'r fframwaith strategol y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu ac yn cysylltu â nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor.

Y prif amcan corfforaethol o ran cynnal a chadw priffyrdd yw darparu ffyrdd gwell a rhai mwy diogel ar gyfer rhoi mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a thwristiaeth.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion, fel yr awdurdod lleol ar gyfer priffyrdd sydd i'w cynnal a'u cadw gydag arian cyhoeddus o fewn ei ffiniau, yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y priffyrdd hyn yn ddiogel ac wrth gyflawni ei ddyletswyddau bydd yn sicrhau:

- a) Archwiliadau rheolaidd ar briffyrdd sydd i'w cynnal a'u cadw gydag arian cyhoeddus.

Tudalen 103



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cod Ymarfer: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

- b) Archwiliadau ad-hoc adweithiol ychwanegol mewn ymateb i geisiadau gwasanaeth neu ymholiadau a dderbyniwyd am gyflwr priffordd a gynhelir.
- c) Archwiliadau yn unol â'r cod ymarfer hwn.

Bwriad archwiliadau diogelwch yw cofnodi 'diffygion' neu 'namau' ar y briffordd er mwyn i system gynnal a chadw fedru cadw'r briffordd mewn cyflwr diogel i ddefnyddwyr. Cyflawnir hyn trwy gynnal archwiliadau rheolaidd, nodi unrhyw ddiffygion sy'n bresennol a phennu sgôr blaenoriaeth iddynt gael eu hatgyweirio neu eu datrys yn unol â'r canllawiau yn y Cod hwn.

Dylid rhoi pob elfen o'r system archwilio ac asesu ar waith yn systematig ac yn gyson. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos diogelwch rhwydwaith, lle gallai gwybodaeth fod yn hanfodol mewn perthynas ag achos cyfreithiol.



4. Hyfforddiant a Datblygu

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddatblygu a hyfforddi staff yn barhaus.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â'r broses cynnal a chadw priffyrdd yn deall maint a natur rhwymedigaethau cyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, i gynnal a chadw priffyrdd, a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'u cyfrifoldebau penodol hwy, gan gynnwys y gwahaniaeth pwysig rhwng dyletswyddau a phwerau.

Mae'n ymhlyg ac yn ddealliedig felly y bydd y rhai sy'n ymwneud â'r broses wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i ddangos y lefel cymhwysedd angenrheidiol ar gyfer pob rhan o strategaeth cynnal a chadw'r awdurdod.

Rhaid i'r awdurdod ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol yn fewnol a thrwy gyrrff allanol i sicrhau rhoi cefnogaeth i gynnal y gallu a'r cymhwysedd hwn. Ar adeg eu penodi, rhaid i holl Arolygwyr Priffyrdd Ceredigion wneud rhaglen hyfforddi a chyflwyno/cynefino mewnol. Dilynir hyn gan hyfforddiant allanol ffurfiol a chymhwyster proffesiynol. Rhoddir hyfforddiant pellach fel y bo'n briodol i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae holl Arolygwyr Priffyrdd Ceredigion wedi'u hyfforddi i City and Guilds 6033 - unedau 301 a 311. Darperir hyfforddiant ychwanegol i sicrhau cydymffurfio â'r cod newydd, gan gynnwys unrhyw Achrediad neu Gynllun Cymhwysedd i Arolygwyr Priffyrdd yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.

UNED 301: IECHYD A DIOGELWCH

- Bwriad hwn yw darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch sylfaenol priodol i arolygwyr priffyrdd, er mwyn iddynt ddeall sut i gynnal asesiad risg sylfaenol a'u cynorthwyo i weithio'n ddiogel ar y briffordd.

UNED 311: CWRS TECHNEGOL ARCHWILIO PRIFFYRDD

Tudalen 105



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cod Ymarfer: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

- Mae hwn ar gyfer y rheiny sy'n cynnal archwiliad priffyrdd yn ystod blwyddyn gyntaf eu penodiad yn ogystal â bod yn ddiweddariad defnyddiol i archwilwyr priffyrdd mwy profiadol. Mae'r cwrs yn rhoi gwybodaeth sylfaenol dda am bob maes cynnal a chadw ac archwilio priffyrdd y gallent ymwneud â hwy.

DRAFT



5. Rheoli Risg

Mae “*Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda: Cod Ymarfer (Hydref 2016)*” yn argymhell bod awdurdodau yn rheoli priffyrdd drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Wrth wneud hynny rhaid i awdurdodau gydnabod y ffaith bod risg yn amrywio ledled asedau a rhwng grwpiau asedau. Mae rheolwyr bob amser wedi ystyried risg wrth wneud penderfyniadau ynghylch archwiliadau, blaenoriaethau atgyweirio a rhaglennu gwaith. Mae'r cod newydd yn creu angen i ffurfioli gwneud penderfyniadau o'r fath a sicrhau bod pob penderfyniad, cyn belled ag y bo modd, yn seiliedig ar ffeithiau a bod y rhesymeg dros y penderfyniadau hyn wedi'u cofnodi.

DRAFT



6. Diogelwch y Rhwydwaith – Archwiliadau Diogelwch

Mae archwiliadau diogelwch yn nodi'r holl ddiffygion a welwyd sy'n debygol o greu perygl neu anghyfleustra difrifol i ddefnyddwyr y rhwydwaith neu'r gymuned ehangach. Dylai diffygion o'r fath gynnwys y rhai sydd angen sylw brys yn ogystal â'r rhai lle mae'r lleoliad a'r maint yn golygu y byddai cyfnodau ymateb hirach yn briodol.

Fel rheol, cynhelir archwiliadau diogelwch mewn cerbydau sy'n symud yn araf ac sy'n teithio ar gyflymder uchaf o 20mya. Rhaid cynnal archwiliadau diogelwch cerdded pan fo hynny'n briodol. Drwy asesu risg y lleoliad y pennir dull archwilio pob lleoliad, naill ai wrth gerdded neu mewn cerbyd sy'n symud yn araf.

Cynhelir yr archwiliadau diogelwch priffyrdd fel rheol gan arolygwyr sy'n gyrru ar eu pennau eu hunain. Ymhlith yr eithriadau mae lleoliadau trefol a manau y nodwyd gan asesiadau risg i fod angen eu harchwilio ar droed. Adolygir y dull archwilio i adlewyrchu canllawiau arferion gwaith cenedlaethol a chyngor/canllawiau iechyd a diogelwch.

Efallai y bydd angen archwiliadau ychwanegol mewn ymateb i bryder defnyddiwr neu'r gymuned, o ganlyniad i ddigwyddiad neu dywydd eithafol, neu yn sgil gwybodaeth fonitro. Nodir y rhain trwy'r broses rheoli risg.

Dyma'r paramedrau y dylid cadw atynt:

- Amllder yr archwiliadau
- Eitemau i'w harchwilio
- Maint y diffygion
- Natur yr ymateb



7. Archwiliadau Ad-hoc (Ceisiadau am Wasanaeth)

Mae archwiliadau ad-hoc i'w cynnal i nodi unrhyw waith cynnal a chadw gofynnol yn dilyn ceisiadau am wasanaeth gan y cyhoedd neu drydydd parti. Trosglwyddir y rhain i'r arolygwyr trwy System Rheoli Asedau Seilwaith y gwasanaeth, sef *Insight* Symology. Bydd y ganolfan alwadau gorfforaethol yn rhoi sgôr blaenoriaeth i'r cais ar gyfer ymateb/archwilio/ymchwiliad. Dylid mynd ati i archwilio'r holl ddiffygion yr adroddir amdanynt o fewn y cyfnod amser a neilltuwyd ar ôl eu derbyn, oni bai eu bod eisoes yn hysbys i'r arolygydd a'u bod wedi'u nodi o'r blaen ar system *Insight* yr Awdurdod i'w cywiro ar sail blaenoriaeth.

Caiff pob archwiliad ad-hoc eu cofnodi ar ddyfais symudol. Mae unrhyw ddiffygion a nodwyd sy'n dod o fewn meini prawf ymyrraeth restredig yn cael eu cofnodi yng nghronfa ddata diffygion *Insight* gyda chyfarwyddiadau i'w gwneud yn ddiogel ac/neu eu hatgyweirio o fewn y cyfnod ymateb a bennwyd.

Anfonir diffygion categori 1 yn awtomatig at y tîm gwaith perthnasol.

Sylwer

Gall Cwmni Cyfleustodau fod yn gyfrifol am waith haearn sydd ar goll neu wedi'i ddifrodi. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr Arolygydd Diogelwch Priffyrdd yn nodi manylion y nam/diffyg yn system rheoli asedau'r Awdurdod er mwyn i adran Gwaith Stryd yr Awdurdod weithredu a chadw golwg ar waith y Cwmni Cyfleustodau.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn rhoi gwybod am ddiffygion i'r ganolfan alwadau gorfforaethol, cânt eu cofnodi a'u hanfon ymlaen at yr Arolygydd Gwaith Stryd perthnasol, a byddant hwythau yn cysylltu â'r ymgymwrwr cyfleustodau statudol perthnasol neu gontractwr arall a gyflogir ar y briffordd. Os yw'n berthnasol, byddant yn cofnodi'r diffyg ac yn cyfarwyddo'r cyfleustodau i'w wneud yn ddiogel. Os na all yr ymgymwrwr cyfleustodau statudol neu gontractwr arall ei wneud yn ddiogel o fewn y cyfnod 2 awr penodedig a osodir yna bydd y gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr yr awdurdod ac ailgodi tâl arnynt.



8. Hierarchaeth Rhwydwaith

Sylfaen strategaeth cynnal a chadw yn gydlynol, yn gyson ac yn archwiliadwy yw hierarchaeth rhwydwaith hyfyw.

Mae'r gofyniad i rannu'r ased yn hierarchaethau yn bodoli yn y cod presennol. Fe'i cadwyd yn y cod newydd ond gyda'r cyfrifoldeb ar awdurdodau i benderfynu ar y ffordd orau i gymhwyso'r egwyddor risg wrth bennu hierarchaethau priodol. Mae'r cod newydd yn datgan *“Ni fydd hierarchaeth y cerbyttyrdd o reidrwydd yn cael ei phennu gan ddsbarthiad y ffordd, ond yn hytrach yn ôl ymarferoldeb a graddfa'r defnydd arni.”* Er enghraifft, mae gan ffyrdd sy'n cludo 10,000 o gerbydau'r dydd fwy o botensial i ddigwyddiad niweidiol na rhai sy'n cludo 500 o gerbydau'r dydd.

Mae'n bosibl amcangyfrif y defnydd ar bob ffordd yn seiliedig ar y data cyfrif traffig sydd ar gael. Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) wedi dewis argymell y dylid gosod hierarchaeth ar sail risg yn bennaf yn seiliedig ar y defnydd ar y ffyrdd. Nid yw hyn yn atal awdurdodau rhag gwneud yr addasiad angenrheidiol mewn ymateb i faterion a phatrymau defnydd lleol penodol. Mae Ceredigion wedi cynnal adolygiad ar y risg i'w asedau priffyrdd sydd, yn ogystal â data cyfrif traffig, yn ystyried ffactorau ychwanegol megis a yw'r ffordd yn cael ei hystyried yn un strategol, a yw'n rhan o lwybr dargyfeirio neu a oes nifer fawr o gerbydau nwyddau trwm yn teithio arni ai peidio.

Mae'n bwysig bod yr hierarchaeth yn adlewyrchu anghenion, blaenoriaethau a'r defnydd gwirioneddol ar bob ffordd yn y rhwydwaith. Gellir categorio ffyrdd fel: ffyrdd wedi'u dosbarthu â rhif (ffyrdd 'A' a 'B'), ffyrdd heb rif (ffyrdd 'C') neu ffyrdd diddosbarth ('U'). Fodd bynnag, nid yw'r system ddsbarthu hon o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaeth a'r gwir ddefnydd ar bob ffordd yn y rhwydwaith.

Ar adegau bydd blaenoriaethau troedffyrdd yn gwrthdaro â blaenoriaethau cerbyttyrdd, ac felly mae'n angenrheidiol diffinio hierarchaethau troedffyrdd a llwybrau beiciau hefyd.

Tudalen 110



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cod Ymarfer: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

Am resymau effeithlonrwydd gweithredol, pan fo unrhyw elfen o briffordd (boed yn droedffordd, llwybr beiciau neu gerbyttffordd) yn rhedeg wrth ymyl elfen arall, yr elfen unigol sydd â'r hierarchaeth uchaf fydd yn pennu amlder yr archwiliadau ar yr elfennau eraill hyn.

Gwneir archwiliadau diogelwch ar droed lle bo modd.

Mae'r prosesau gweithredol a ddiffinnir yn ceisio ystyried diogelwch holl ddefnyddwyr priffyrdd ac ar yr un pryd yn cadw mewn cof y cyfyngiadau ar yr Awdurdod yn sgil cyllidebau ac adnoddau dynol penodol a chyfyngedig.

Mae'r hierarchaethau hyn yn ddeinamig ac i'w hadolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn nodweddion y rhwydwaith a allai ddeillio o ddefnydd gwirioneddol ar y rhwydwaith yn hytrach na'r defnydd a ddisgwylir pan ddiffiniwyd yr hierarchaeth yn wreiddiol.

Mae "Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda: Cod Ymarfer (2016)" yn cynnig pwynt cyfeirio y gall Awdurdodau Priffyrdd ddatblygu hierarchaethau lleol. At y diben hwn bydd Ceredigion yn defnyddio'r canlynol i fod y prif feini prawf gan addasu ar gyfer defnydd:

Enwau Lefel Hierarchaeth y Cod Ymarfer	Lefel Hierarchaeth CSSW	Band Lefel y Traffig (tua)
Llwybr strategol	CHSR	Yn seiliedig ar bwysigrwydd lleol yn hytrach na llif traffig ond yn aml yn yr ystod >20,000 [30,000 ar gyfer cyfrifiadau]
Prif ffordd ddosbarthu	CH1	10,000 i 20,000
Ffordd ddosbarthu eilaidd	CH2	5,000 - 10,000
Ffordd Gyswilt	CH3	1,000 - 5,000

Tudalen 111



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cod Ymarfer: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

Ffordd Mynediad Lleol	CH4	200 – 1000
Is-ffordd	CH5	<200

Tabl 8.1 – Hierarchaeth Priffyrdd (Cerbyffordd)

DRAFT



Hierarchaeth Priffyrdd (Troedffordd)

Mabwysiadwyd yr un egwyddor ar gyfer sefydlu hierarchaeth troedffyrdd. Mae cryn dipyn yn llai o ddata ar gael ar nifer y cerddwyr a bydd angen casglu hyn dros amser.

Mae hierarchaeth troedffyrdd yn seiliedig yn bennaf ar lefelau'r defnydd, a

- gellir ei addasu i adlewyrchu amodau lleol;
- bwriedir iddo greu cysondeb cenedlaethol;
- dylid dogfennu rhesymau dros unrhyw amrywiannau i'r dull.

Disgwylir y bydd swyddogion yn defnyddio'u crebwyll i amcangyfrif nifer y cerddwyr ar wahanol droedffyrdd er mwyn defnyddio'r dull yn absenoldeb data.

Yn ogystal, ac am resymau effeithlonrwydd gweithredol, pan fydd elfen briffordd yn rhedeg wrth ymyl elfen arall, boed hwnnw'n llwybr beiciau, troedffordd neu gerbyttffordd, yr elfen sydd â'r amllder archwilio uchaf fydd yn pennu amllder yr holl elfennau.

Bydd Ceredigion yn mabwysiadu'r hierarchaeth a fanylir yn Nhabl 8.2:

Categori Hierarchaeth Rhwydwaith Troedffordd y Cod Ymarfer	Hierarchaeth Troedffyrdd CSSW	Nifer y cerddwyr (dangosol)
Man Cerdded Ganol Dinas	FHVHU	> 10,000 (15,000 i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifiadau)
Man Cerdded Ganol Tref	FH1	5,000 - 10,000
Troedffordd y tu allan i Gyfleusterau Cyhoeddus	FH2	1,000 - 5,000
Troedffordd cysylltu (rhng ystadau / ardaloedd)	FH3	500 - 1,000
Troedffordd Stad o Dai	FH4	< 500
Troedffordd Gefn Gwlad na ddefnyddir lawer arni	FH5	< 100

Tabl 8.2 – Hierarchaeth Priffyrdd (Troedffordd)



Hierarchaeth Priffyrdd (Llwybr Beiciau)

Mae mwyfwy o ddatblygu ar lwybrau a hyrwyddir ar gyfer beicwyr, ac felly, yn amodol ar adolygiad, bydd Ceredigion yn mabwysiadu'r canllawiau yn y Cod Ymarfer ac yn parhau i ddefnyddio'r tabl canlynol i ddynodi'r hierarchaeth gymharol.

Yn ogystal, am resymau effeithlonrwydd gweithredol, o ran elfen briffordd llwybr beiciau, wrth redeg yn gyfagos i elfen arall (troedffordd neu gerbyttffordd), neu wrth ffurfio lôn ar y gerbyttffordd, bydd yr elfen sydd â'r hierarchaeth uchaf yn pennu pa mor aml yr archwilir y llwybr beiciau hwn.

Categori	Enw'r Categori	Disgrifiad
A	Lôn Feicio (<i>lane</i>)	Lôn sy'n ffurfio rhan o'r gerbyttffordd, yn aml llain wrth ymyl palmant/cwrw gerllaw.
B	Llwybr Beicio (<i>track</i>)	Llwybr priffordd i feicwyr nad yw'n gyffiniol â throedffordd neu gerbyttffordd gyhoeddus. Llwybrau beicio/cerdded yn cael eu rhannu, wedi'u gwahanu gan linell wen neu ryw arwahanu corfforol arall, neu heb eu gwahanu.
C	Llwybr Beicio Gwlad (<i>trail</i>)	Llwybrau hamdden drwy fannau agored.

Tabl 8.3 – Hierarchaeth Priffyrdd (Llwybr Beiciau)



9. Y System Archwilio

Archwiliadau Diogelwch

Mae sefydlu hierarchaethau ar sail risg yn cael ei wneud yn bennaf ar sail y defnydd ar y ffordd/llwybr. Mae Tabl 9.1 yn manylu ynghylch amlder yr archwilio a argymhellir. Gweler Atodiad B.

Amllder yr archwiliadau

Mae amlder yr archwiliadau unwaith eto wedi'i osod i gryn raddau yn unol â *"Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda: Cod Ymarfer (Hydref 2016)"* gyda mân addasiadau i osgoi gwrthdaro rhwng hierarchaeth cerbytyffyrdd a throedffyrdd. Pan fydd gwrthdaro, er enghraifft wrth groesfan pelican, bydd hierarchaeth y droedffordd bob amser yn cael blaenoriaeth wrth bennu amlder archwilio.

Rhaid i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol gymeradwyo unrhyw newidiadau yn yr amlder cyn iddynt gael eu gweithredu.

Yn ogystal, mae'r cyngor wedi awdurdodi gohirio'r System Archwilio yn ei chyfanrwydd yn ystod cyfnodau pan nad yw'n bosibl archwilio. Mae'r ffurflen awdurdodi ar gyfer gohirio archwiliadau priffyrdd i'w chael yn Atodiad D.

Caiff archwiliadau diogelwch eu cynnal fel rheol ar gyfnodau penodol fel y nodir yn nhabl 9.1. Fodd bynnag, gellir gohirio'r rhaglen archwiliadau am resymau eithriadol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wyliau statudol neu benodedig, cyfnodau o dywydd eithriadol lle mae llifogydd neu eira yn atal archwiliad cywir o'r rhwydwaith ffyrdd, a digwyddiadau brys neu eithafol eraill. Pan fydd archwiliadau'n cael eu gohirio am gyfnod o 2 ddiwrnod neu lai, bydd y ffyrdd a'r troedffyrdd a oedd i fod i gael eu harchwilio ar y dyddiau hyn yn cael eu harchwilio o fewn pythefnos i'r dyddiad y bydd yr archwiliadau'n aildechrau. Pan fo'r cyfnod gohirio dros dro yn hirach na 2 ddiwrnod yna, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Corfforaethol Arweiniol

Tudalen 115



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cod Ymarfer: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb

ar gyfer Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, ac aelod y cabinet, dylai'r rhaglen archwilio gyfan gael ei gwthio ymlaen/ailosod ac yna ei hailddechrau fel pe na bai'r cyfnod gohirio wedi digwydd. Pan roddir cymeradwyaeth i wthio rhaglen archwilio ymlaen, rhaid cofnodi'r rhesymau dros y gohirio a pha mor hir y mae'n para yn y System Rheoli Asedau.

Nodwedd	Categori	Amllder Archwilio
Ffyrdd	CHSR	Pob mis
	CH1	Pob mis
	CH2	Pob 3 mis
	CH3	Pob 6 mis
	CH4	Bob blwyddyn
	CH5	Archwiliadau Ymatebol
Troedffyrdd	FHVHU	Pob mis
	FH1	Pob mis
	FH2	Pob 3 mis
	FH3	Pob 6 mis
	FH4	Bob blwyddyn
	FH5	Archwiliadau Ymatebol
Llwybrau Beicio	A	Fel gyda'r ffyrdd
	B	Pob 6 mis
	C	Pob 6 mis
Meysydd Parcio		Pob mis

Tabl 9.1 – Amllder Archwilio

Yr Elfen Weithredol

Rhaid cynnal archwiliadau ar sail optimeiddio llwybr er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gweithredol mwyaf posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael. Yn sgil hyn bydd rhai rhannau o'r rhwydwaith sydd wedi'u dosbarthu i fod ag amllder archwiliadau is yn cael eu harchwilio'n amlach na'r hyn a nodwyd; er enghraifft, er y



nodwyd y dylid archwilio rhan o'r rhwydwaith bob 3 mis gellid dychwelyd ati bob mis os yw'n fwy effeithlon yn weithredol.

Hyblygrwydd Archwiliadau

Dylid cynnwys hyblygrwydd/goddefgarwch i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu hosgoi megis tywydd gwael, hyfforddiant, salwch arolygydd ac ati. Pan fydd angen y rhain, argymhellir mai'r goddefgarwch a roddir i amllder pob archwiliad yw 50% o'r egwyl archwilio benodedig neu 3 mis (p'un bynnag sydd y lleiaf).

Rhaid i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ac aelod y cabinet gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r amllder uchod cyn iddynt gael eu gweithredu. Gweler Atodiad D.

Namau a diffygion

- **Diffyg/Nam Difrifol** yw un lle mae'r arolygydd yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i ofyn am weithredu ar unwaith. Gall diffygion sy'n peri risg o anaf yn syth neu yn y dyfodol agos i ddefnyddwyr ffordd gynnwys eitemau megis seler wedi cwmpo, gorchudd cyfleustodau ar goll, coeden wedi cwmpo, agoriad heb gaead/yn agored. Dylid gwneud diffygion difrifol yn ddiogel ar adeg yr archwiliad os yw'n ymarferol bosibl neu dylai'r arolygydd aros yno hyd nes y gellir gwneud y diffyg/nam yn ddiogel. Gall ei wneud yn ddiogel fod yn gyfystyr ag arddangos rhybuddion, gosod conau neu ffens i amddiffyn y cyhoedd rhag y diffyg/nam. Y safon ofynnol ar gyfer nam difrifol yw amser ymateb o 2 awr (i fynychu a'i wneud yn ddiogel cyn gynted â phosibl wedi hynny).
- **Diffyg/Nam Diogelwch** yw un sydd angen sylw cyflym oherwydd ei fod yn berygl a all ddigwydd yn fuan. Bydd namau diogelwch yn gofyn am ymateb cyn gynted â phosibl i gael gwared ar risg bosibl o anaf i ddefnyddwyr, ac fel arfer byddant yn cynnwys eitemau fel tyllau yn y ffordd o faint penodol,



peryglon baglu, cyrbau wedi dod yn rhydd ac ati. Os yw'n ymarferol bosibl dylid gwneud namau diogelwch yn ddiogel ar adeg yr archwiliad. Gall hyn olygu arddangos rhybuddion, gosod conau neu godi ffens i amddiffyn y cyhoedd rhag y diffyg/nam. Os nad yw'n bosibl cywiro neu ddiogelu'r nam ar adeg yr archwiliad, dylid gwneud atgyweiriadau o natur barhaol neu dros dro o fewn yr amser ymateb a nodwyd. Mae safon ofynnol CSSW yn rhoi data dimensiwn y gellir ei ddefnyddio fel canllaw i nodi diffygion/namau diogelwch ar gyfer gwahanol hierarchaethau rhwydwaith.

- **Diffyg/nam cynnal a chadw** – nid yw'r rhain yn namau diogelwch ond y mae angen eu hatgyweirio ar adeg briodol i'w diogelu rhag dirywiad pellach. Nid ydynt yn peri perygl uniongyrchol i ddefnyddwyr. Dylid categorio namau a diffygion cynnal a chadw fel blaenoriaeth uwch: diffygion sy'n haeddu cael eu trin er mwyn eu hatal rhag dirywio i fod yn ddiffyg/nam diogelwch cyn yr archwiliad nesaf a drefnwyd, a rhoi blaenoriaeth is i ddiffygion eraill sydd angen eu trin er mwyn eu hatal rhag dirywio i'r fath raddau nes arwain at waith neu gostau ychwanegol.

Graddau'r diffygion

Bydd graddau'r diffygion/namau mewn elfennau priffyrdd yn hanfodol wrth bennu natur a chyflymder yr ymateb. Mae'r tabl isod yn darparu llinell sylfaen. Bydd Arolygwyr Priffyrdd yn cadw'r hawl i ymchwilio ac o bosibl i ymyrryd ar sail risg ar unrhyw adeg. Bydd asesiadau ar sail risg yn cael eu llywio gan Lawlyfr Cofnodi Diffygion Archwilio Ceredigion, hyfforddiant, briffio a mecanweithiau rheoli ansawdd.

Trefn Atgyweirio Cerbyttfordd: Amseroedd Ymateb				
Hierarchaeth cerbyttfordd	Nam neu ddifrod diogelwch		Nam cynnal a chadw	
CHSR	>50mm	Erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol	>40mm	1 mis
CH1	>50mm		>40mm	
CH2	>50mm		>40mm	



CH3	>75mm	5 diwrnod	>50mm	3 mis
CH4	>75mm		>50mm	
CH5**	>75mm		>50mm	

Tabl 9.2 –Trefn Atgyweirio Cerbyttffordd: Amseroedd Ymateb

** Ystyrir bod trothwy diffygion/namau ar ffyrdd CH5 i fod ar lefel ymchwilio.

Maint y diffyg/nam

Mae maint y diffyg/nam a bennir ar gyfer pob math o ddiffyg/nam a'r hierarchaeth yn adlewyrchu'r ffaith bod diffygion cerbyttffordd yn dirywio'n gyflymach ar ffyrdd sydd â thraffig trymach o ganlyniad i nifer y cerbydau sy'n rhedeg drostynt. Bydd nam o ddyfnder 50mm ar CH2 ac uwch yn destun traffig cyson. Mae'r holl ffyrdd hyn yn cludo >5,000 o gerbydau'r dydd ac o'r herwydd gallai twll yn y ffordd ddirywio'n gyflym i fod yn fwy peryglus os na chaiff ei atgyweirio'n brydlon. Am y rheswm hwn, mae safon wahaniaethol o ran maint nam diogelwch wedi'i fabwysiadu ar gyfer y safon ofynnol a ddangosir yn Nhabl 9.2.

Amseroedd Ymateb

Mae'r amseroedd ymateb a gynigir hefyd yn seiliedig ar ystyried lefelau defnydd gwahanol. Mae Atodiad A yn dangos sut y cyfrifwyd y risg a'i ddefnyddio i ddangos pa amseroedd ymateb sy'n ofynnol i sicrhau lefel risg gyson ar draws pob lefel o'r hierarchaeth.

Gweler Atodiad A.



10. Diffygion sy'n gysylltiedig â phartion eraill

Mae rhai diffygion sy'n digwydd ar y briffordd yn gysylltiedig â chyfleustodau diffygiol neu gyfarpar preifat sy'n cynnwys gorchuddion i siambrau archwilio, blychau neu fesuryddion. Gan weithredu fel awdurdod priffyrdd ac yn dilyn asesiad risg ar y safle, bydd y Cyngor, er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag nam mor beryglus, yn gosod arwyddion a'r amddiffynfeydd angenrheidiol dros dro i wneud yr ardal yn ddiogel.

Ar ôl diffinio'r nam/diffyg, bydd y Cyngor yn derbyn y cyfrifoldeb neu'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r cwmni cyfleustodau neu drydydd parti.

Rhaid cofnodi diffygion eraill sy'n gysylltiedig â phartion eraill, megis llystyfiant sy'n gordyfu a ffensys yn amharu, neu rwystrau anghyfreithlon ar y briffordd sy'n achosi ymyrraeth â llif rhydd a diogel defnyddwyr y ffordd. Gellir delio â'r diffygion hyn trwy wneud y gwaith adfer ac ailgodi tâl neu drwy lythyr gorfodi, a'i gyflwyno i'w ymchwilio ymhellach. Gall y camau hyn gynnwys achos cyfreithiol.



11. System Reoli a Chipio Data

Mae Gwasanaethau Priffyrdd yn defnyddio System Rheoli Asedau Seilwaith integredig (IAMS) ar draws nifer o feysydd busnes. Defnyddir y system hon i gasglu, diweddarau a rheoli data allweddol sy'n gysylltiedig â rhannau ffyrdd, a'r rhannau hynny yn cael eu hadnabod drwy ddefnyddio Rhif Cyfeirnod Stryd Unigryw y National Street Gazetteer (USRN). Gellir cysylltu data â GIS ac mae'r system yn rhoi modd storio ffotograffau a dogfennau cysylltiedig.

Mae'r prif IAMS ar y we ac mae modd cael mynediad iddo trwy gyfrifiaduron personol a gliniaduron. Gellir cyrchu unedau gwaith ac archwiliadau trwy ddyfeisiau symudol yn y llaw. Mae gweithio symudol gan Arolygwyr Priffyrdd yn cynorthwyo â derbyn a chyfleu gwybodaeth mewn amser real.

